www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa
Rhif: 430
Mawrth 2015
Pris:60c

# Diwedd Cyfnod




**Gydag ymddeoliad Pat ac Edgar Jones ddechrau Chwefror, daeth oes yr hen lythyrdy yn Llanrug i ben. Fe'i hadeiladwyd yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn adeilad helaeth tri llawr a seler. Yn ôl traddodiad, cafodd ei adeiladu yn fwriadol i guddio'r Capel Mawr, a hynny am i awdurdodau'r capel wrthod rhoi llain o dir i'r postfeistr i ymestyn yr adeilad. Does wybod faint o wir sydd i'r stori honno, ond ers bron i ganrif a hanner, mae'r adeilad wedi hawlio sylw ar sgwâr y pentref.**

I hen drigolion Llanrug mae'r Post wastad yn cael ei gysylltu â theulu D.M.Pritchard, a fu'n cadw'r llythyrdy am flynyddoedd; yn berchen garej (ble mae Cwmni Arvonia bellach) ac yn cynnal busnes bysus cynnar. Fe'i dilynwyd gan ei fab, Frank Pritchard, a adnabyddid gan bawb fel Frank D.M. A phan aeth y Post allan o feddiant y teulu, daeth Beryl Thomas i gymryd gofal; un a fu'n gweithio yno am flynyddoedd cyn hynny.

Ym mis Tachwedd 1999 y daeth Pat ac Edgar i ofalu am y Post, a hynny wedi blynyddoedd o gadw siopau ym Mangor a Deiniolen. Roedd Edgar yn dychwelyd i'w bentref genedigol, ac yntau wedi ei fagu rhyw ganllath yn unig o'r Post. Dyma pryd y diflannodd yr hen gownter pren tywyll, a moderneiddio'r tu mewn drwy osod cownter newydd a ffenestri diogelwch i ymateb i ofynion newidiol yr oes bresennol. Dechreuwyd gwerthu nwyddau ysgrifennu, cardiau cyfarch a theganau.

Dros y blynyddoedd, fel yr oedd newidiadau yn nhrefniadaeth y Swyddfa Bost, dechreuodd rhai o swyddfeydd post y pentrefi o amgylch gau – Deiniolen, Clwt y Bont, Penisarwaun, Cwm y Glo a'r Waunfawr. Prysurodd Post Llanrug. Deuai cwsmeriaid yno o ddalgylch eang, gan dderbyn gwasanaeth distaw a chwrtais gan Pat a byrlymus o hwyliog gan Edgar. Roedd yn bartneriaeth berffaith.

Anaml y gwelid y Post yn wag, ac nid peth dieithr oedd gweld rhes o gwsmeriaid yn disgwyl o'r tu allan am fynediad! Roedd trin a thrafod digwyddiadau'r fro – a thu hwnt, yn rhan o'r sgwrs ddyddiol yno.

Ond wedi blynyddoedd o gynnal busnesau llwyddiannus daeth yn amser ymddeol. Roedd gofynion y Swyddfa Bost yn mynd yn fwy caeth, a chynnal Post annibynnol yn mynd yn fwy-fwy anos. Dyna a arweiniodd at gau cymaint o swyddfeydd bychan gwledig dros y blynyddoedd. Dyna fydd hanes Llanberis hefyd maes o law, a phentrefi mawr eraill megis Penygroes a Llanfairpwll yn ôl y sôn.

Ond ni fydd Llanrug yn cael ei amddifadu o Bost. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi ei drosglwyddo i ochr arall sgwâr y pentref, a staff Siop Y Storfa yn croesawu cwsmeriaid newydd.

Dymuna'r "Eco" ymddeoliad hapus a dedwydd i Pat ac Edgar, a diolch iddynt ar ran mwyafrif trigolion dalgylch y papur am eu gwasanaeth gydol y blynyddoedd.

ECO'r Wyddfa

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2014

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Ebrill | Mawrth 15 | Mawrth 27 | Cwm y Glo |
| Mai | Ebrill 19 | Mai 1 | Deiniolen |

**RHIF 430**
**Mawrth 2015**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engau, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673

## Yn ystod y mis aeth heibio....

- Cyhoeddwyd dull newydd eto o raddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru. Y tro hwn mae pob ysgol yn cael ei gosod mewn un o bedwar lliw: gwyrdd yn benigamp, yna melyn, oren a choch ar waelod y gasgen. Fel tae'r lliwiau yn golygu unrhywbeth i'r mwyafrif o rieni, disgyblion na staff yr ysgolion. Y tro hwn, mae ysgolion cynradd yn cael eu cynnwys yn yr ystol liwiau. Y gobaith yw y bydd pawb yn anelu am ddringo i fyny'r ystol o goch, oren neu felyn a chyrraedd y gwyrdd ar y brig. Mae'n fwy na thebyg y gwelir rhyw ddull arall yn cael ei fabwysiadu cyn i bawb gyrraedd copa'r ystol.

- Mae'n hen ystrydeb fod rhywun yn disgwyl oesoedd am fws, ac yna daw dau ddybyl dec gyda'i gilydd. Dyna sydd wedi digwydd yng Nglyn Rhonwy yn ddiweddar. Eisoes cychwynwyd ar y gwaith o glirio tir ar gyfer parc carafannau rhwng mynedfa Glyn Rhonwy a phentref Llanberis (gweler tudalen29). Ar yr un pryd mae'r cwmni sy'n bwriadu creu storfa drydan yn yr hen dyllau chwarel hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a'r cynlluniau i'w gweld mewn amryw adeiladau o fewn y fro.

- Ar ddydd Llun, y nawfed o Chwefror cyhoeddwyd dwy dudalen liwgar yn Dail y Post yn honni iddynt gael egscliwsif, sef hanes ffilmio y rhaglen deledu "The Mountain" a ddangoswyd ar ITV yn ystod y mis. Roedd yr hanes wedi ymddangos yn yr "Eco" wythnos ynghynt. Be 'di ystyr 'egscliwsif' dudwch? Dim ond gofyn...

- Ar gyrion y fro, diflannodd piler llechfaen a oedd yn draddodiadol yn dynodi terfynau hen stadau'r Penrhyn a'r Faenol. Does wybod ers faint o amser y safodd y piler saith troedfedd o uchder ar yr hen lon sy'n arwain o bentref Rhiwlas dros ystlys Moelyci am Fynydd Llandegai.

- Mae Hostel Ieuenctid Pen Gorffwysfa wedi ei henwebu ar gyfer gwobr bensaerniol yn dilyn ail-addasu'r adeilad y llynedd. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru, ac y mae'r Hostel Ieuenctid wedi ei chynnwys yn y categori Hamdden a Thwristiaeth. Bydd y seremoni wobrwyo'n cael ei chynnal yn Nghaerdydd ym mis Mai.

- Ac i orffen, eto ym myd addysg, cyflwynwyd petisiwn i Gyngor Gwynedd (Toriadau i Ysgolion Gwynedd: Dim Diolch) yn gwrthwynebu'r toriadau llym (£4.3 miliwn arfaethedig) y bydd ysgolion y sir yn ei wynebu yn y flwyddyn ariannol i ddod. Oes raid ymhelaethu?

### Diwedd Cyfnod

Ar achlysur eu hymddeoliad, dymuna Pat ac Edgar Jones, Post Llanrug, ddiolch o waelod calon i'w holl gwsmeriaid yn nalgylch "Eco'r Wyddfa" a thu hwnt am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd. Diolch yn arbennig hefyd am y llu anrhegion, y cyfarchion, y blodau a'r negeseuon o ddymuniadau da a dderbyniwyd yn ystod dyddiau olaf y Post.

### Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai ar nos Fawrth, 17eg Mawrth am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Dr Bleddyn Owen Huws a thestun ei ddarlith fydd 'T.H.Parry-Williams y Gwrthwynebydd Cydwybodol'. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Noddir y digwyddiad gan Lenyddiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

## RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Helena Edwards, Anneddle, Stad Bod Hyfryd, Waunfawr.

£10: Brenda Williams a'r teulu er cof am William Orwig Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Dilys Jones, 3 Maes Gerddi, Cwm-y-Glo; Delyth Hughes, Llys Elen, Station Road, Llanrug; Dion ac Ellie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug; Eiriona Williams, Glyn Euron, Penisa'rwaen.

£5: Dr J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel; Elizabeth a John Evans, Pen Parc, Bethel; Beryl, Dôl y Coed, Stad Bod Hyfryd, Waunfawr.

Pryd i bawb
Arlwyo at bob achlysur
Yn ynrhyw leoliad
Bwffe Blasus o Safon
PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN
CERID MACKINNON
(01286) 673190
Symudol 07774 925502




# Arddangosfa o ffotograffau hanesyddol – a chais am wybodaeth










Mae detholiad o ffotograffau diwydiannol hanesyddol o gasgliadau cenedlaethol Amgueddfa Cymru yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis am y tro cyntaf.

Mae 'Delweddau Diwydiant' yn cynnwys ffotograffau – nifer ohonynt am y tro cyntaf erioed - yn ymwneud a'r diwydiant llechi yng ngogledd Cymru, yn cynnwys lleoliadau o chwareli amyrwiol yr ardal yn cynnwys Dinorwig yn Llanberis, Blaenau Ffestiniog a Bethesda ymysg eraill. Mae'r ffotograffau yn amrywio o chwarelwyr yn llenwi wagenni gyda llechi yn barod i'w hallforio, neu yn teithio i'w gwaith ar fysus lleol, eu hoffer gwaith a llefydd gweithio ynghyd a golygfeydd a thirweddau godidog.

Mae'r detholiad bychan sydd i'w gweld yn yr amgueddfa wedi eu tynnu yn y 1960au gan y ffotograffydd profesiynol o Fae Colwyn, E Emrys Jones ac yng nghasgliad yr amgueddfa ers 1982. Maent wedi cael eu digideiddio yn ddiweddar fel rhan o brosiect Dadorchuddio Ffotograffiaeth Hanesyddol – project tair blynedd o ddogfennu, curadu a digideiddio detholiad o ffotograffau hanesyddol o gasgliadau cenedlaethol Cymru wedi ei gyllido gan Sefydliad Esmée Fairbairn. Bydd hyd at 10,000 o luniau wedi cael eu digideiddio erbyn diwedd y project ym mis Ebrill 2015 a bydd detholiad o'r lluniau hyn yn cael eu cynnwys yn yr arddangosfa newydd.

Bydd delweddau'n cael eu hychwanegu at y gronfa ddata tan ddiwedd yr arddangosfa, a bydd y gronfa ddata wedi'i chwblhau yn cael ei lansio ar ddiwedd Ebrill 2015.

Mae arddangosfa fawr o ffotograffau Dadorchuddio Ffotograffiaeth Hanesyddol, i'w gweld yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd tan 19 Ebrill, yn olrhain sut mae ffotograffiaeth wedi cyfrannu at hanes gweledol Cymru. Mae'r arddangosfa yn olrhain esblygiad ffotograffiaeth, o fod yn gofnod gwyddonol a chymdeithasol i'w defnydd fel cyfrwng artistig.

Dywedodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru: "Mae digideiddio'r delweddau hyn yn golygu ein bod yn gallu agor y casgliadau i'r cyhoedd a sicrhau mwy o ddefnydd iddynt yn y dyfodol. Mae'n fodd o warchod hanes. Fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl heb gymorth Sefydliad Esmée Fairbairn. Mae'r Rhodd wedi ein galluogi i ymchwilio, dogfennu a digideiddio detholiad helaeth o weithiau ffotograffig o wahanol gasgliadau'r Amgueddfa."

Mae Delweddau Diwydiant i'w gweld yn Amgueddfa Lechi Cymru tan 30 Ebrill, ond yn ystod yr wythnosau hyd hynny, gobaith mawr staff yr Amgueddfa yw cael cymorth i adnabod ac enwi yr holl unigolion a'r lleoliadau a ddangosir yn y lluniau.

Dangoswyd rhai o'r lluniau ar Facebook yn ystod y mis diwethaf, ac mae'n syndod faint o enwau a roddwyd i rai ohonynt. Ymddangosodd rhai o'r lluniau yng nghyfrol y diweddar Emyr Jones "Canrif y Chwarelwr", ond ni roddwyd enwau unigolion ar y lluniau rheini chwaith.

Dyma gyfle i chi felly fod yn rhan o'r ymgyrch genedlaethol i gofnodi gwybodaeth am ddiwydiant a fu'n gymaint rhan o fywyd ein bro. Ewch draw i'r Amgueddfa yn Llanberis, a bydd y staff yno'n barod iawn i dderbyn gwybodaeth gennych am y lluniau. Diolchwn iddynt am yr hawl i ail-gynhyrchu rhai o'r lluniau yn y rhifyn hwn, fel rhagflas o'r hyn sy'n aros yn yr Amgueddfa Lechi. *Mwy ar dudalen 7*





## BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts. Ffôn: 870580



**Sefydliad y Merched** Ar ddydd Sadwrn, 7fed o Chwefror, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched yn ysgol Brynrefail, Llanrug. Gofynnwyd i'r merched oedd yn cymeryd rhan ddod mewn dillad o unrhyw gyfnod yn ystod y 100 mlynedd. Dyma lun Cadeirydd y Ffedarasiwn, Pat Jones, gyda Chadeirydd Cymru, Ann Jones, ac aelodau'r bwrdd.

Gwahoddwyd yr Aelod Seneddol Hywel Williams a Maer a'r Faeres Caernarfon. Daeth cynulleidfa fawr i'r achlysur, gyda chyfarfod difyr. Wedyn cawsom adloniant gan Anette Bryn Pari ar y piano, yn chwarae caneuon yn adlewyrchu'r ganrif. Ar ôl y cyfarfod, cafodd bron i ddau gant o bobl de prynhawn bendigedig.

Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gwahoddwyd Mr John Grisdale i adrodd am waith arbennig Y Tîm Achub Mynydd. Yn ystod ei sgwrs, dangosodd nifer o sleidiau o waith y tîm yn ymwneud â damweiniau sy'n digwydd i gerddwyr a dringwyr ar y mynyddoedd.

Ym mis Chwefror cafwyd cyfarfod arbennig gan y Ffederasiwn i roi cychwyn i'r flwyddyn o ddathlu canmlwyddiant Sefydliad y Merched. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn Ysgol Brynrefail. Roedd nifer dda o'r aelodau wedi gwisgo dillad o wahanol ddegawdau yn ystod y can mlynedd diwethaf.

Y gwahoddedigion oedd Mrs Ann Jones, Cadeirydd NFWI Cymru, Maer a Maeres Caernarfon, Mr Hywel Williams AS a Mrs Annette Bryn Parri a roddodd ddatganiad caboledig o alawon enwog y clywid eu perfformio dros y ganrif ddiwethaf.





Dyma'r dynion dewr yn coginio yn Llanberis ar gwrs 6 wythnos sydd wedi ei drefnu gan Sefydliad y Merched i ddynion yn byw ar eu pen eu hunain.



Nos Fawrth, Chwefror 17eg cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Grŵp Eryri yn y Caban. Cafwyd adroddiadau o weithgareddau y gwahanol Sefydliadau yn y Grŵp a hithau yn nos Fawrth Ynyd, mwynhaodd pawb baned a chrempog i gloi'r noson.

### YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd

Cynhelir y cyfarfod cyd-enwadol eleni yng Nghapel y Rhos, Llanrug, bnawn Gwener, Mawrth 6ed am 2 o'r gloch.

Oedfaon Mawrth am 5.30 yh

1: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

8: Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

15: Mr Euron Hughes, Dolgellau

22: Parch W.R. Williams, Y Felinheli

29: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

## BETHEL Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

**Clwb Bro Bethel** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yn ddiweddar gyda y Parchedig Marcus Wyn Robinson yn llywyddu. Wrth groesawu pawb ynghyd cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Nancy Williams, ac hefyd gyda Eunice Roberts, hi wedi colli ei brawd yng Nghaerdydd. Diolchwyd i bawb am gasglu WISH tokens y Daily Post gan edrych ymlaen i dderbyn rhywfaint o'r arian sydd ar gael.

Y siaradwr gwadd oedd Dafydd Whiteside Thomas a bu'n sgwrsio yn ddifyr am gefndir diwydiannol y cylch a chyflwynodd wybodaeth gyflawn gan egluro fod y chwareli wedi cynnal diwydiannau eraill megis cynhyrchu dur, haearn a chopr. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Geraint Elis.

Bydd cyfarfod mis Mawrth yn yr Ysgol ar wahoddiad y Pennaeth a'r staff a gofynnir i bawb gyrraedd erbyn 1.00.

**Cynhelir Noson Lawen** gyda Thalentau Lleol nos Wener, Mawrth 13, yn Neuadd Goffa Bethel. Bydd y drysau yn agor am 6.30 a dechreuir am 7.00. Pris mynediad fydd £3 i oedolion, £1 i blant dros 4 oed sy'n cynnwys paned neu ddiod oren a theisen.

Bydd elw'r noson yn cefnogi taith Sion Emlyn gyda Chwmni Drama'r Urdd i Batagonia pryd y byddant yn perfformio drama 'Mimosa' i ddathlu 150mlynedd y Wladfa ym Mhatagonia.

Diolch Dymuna John Evans, Pen Parc ddiolch i'r plant am y parti pen-blwydd ardderchog yn y Gardd Fon, Felinheli i ddathlu ei ben-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Diolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion

**Merched y Wawr** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mair Price, ein Llywydd, a Beti Owen fu'n cyfeilio i Gân y Mudiad. Gan ein bod yn dathlu Gŵyl Ddewi a phen-blwydd y gangen yn ddeugain oed y mis nesaf, anogwyd pawb i anfon eu dewis o luniaeth ynghyd â'r arian i Rita neu Mair Williams, cyn y laf Fawrth. Gwenan Gibbard fydd ein gwestai, ac fe noddir y noson gan Noson Fach Allan. Cydymdeimlwyd gyda Mair Read a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam yng nghyfraith, a llongyfarchwyd Edwina ar ddod yn nain i Math, mab bach i Owain a Delyth.

Os oes unrhyw aelod yn cael trafferthion gyda gwasanaeth Cymraeg yn y banciau yna cysyllter â Mair Price, ysgrifennydd y Rhanbarth. Pleser oedd gan Mair Read, yr is lywydd, longyfarch y Dr. Angharad Price, merch Mair ar ei phenodiad yn Athro ym Mhrifysgol Bangor. Mae dy ffrindiau i gyd ym Methel mor falch ohonot.

Ein gŵr gwadd oedd Mr John Grisdale, a oedd yn wybyddus i lawer fel cyn-brifathro Ysgol Brynrefail. Testun ei sgwrs oedd Tîm Achub Mynydd, Llanberis, y tîm gwirfoddol prysuraf ym Mhrydain - un y mae Mr Grisdale yn aelod ohono. Trwy gyfrwng sleidiau cawsom flasu llawer o'r profiadau sydd yn wynebu'r criw ar amseroedd anodd. Pwysleisiodd, ymysg llawer o gynghorion eraill, pa mor bwysig yw'r paratoi, gwisgo'n addas gyda'r offer priodol cyn cychwyn i fynydda. Yn dilyn hyn cawsom wledd o luniau wedi eu tynnu o amgylch y fro. Talwyd diolchiadau gan Anita a dymunodd yn dda i'r tîm i gyd. Diolch i ferched y te, sef Efa a Gwyneth Jones, (Waen Wen) a Lis Watkin. Falmai enillodd y raffl.

COFIWCH I GYD FELLY AM Y DATHLU YN Y NEUADD GOFFA, NOS FERCHER, 11eg O FAWRTH. CROESO CYNNES I GYN AELODAU YMUNO Â NI - DIM OND CYSTYLLTU AM FANYLION GAN RITA CYN Y laf o FAWRTH.

**Cymdeithas Lenyddol** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn ddiweddar gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson yn llywyddu. Dwy o ferched staff Antur Waunfawr oedd wedi dod draw, sef Llio Jones - Swyddog Gweinyddol Gwasanaethau Preswyl a Dydd, a Karen Jones - Gweithwraig Cefnogol. Bu'r ddwy yn cyflwyno hanes cychwyn Antur Waunfawr yn nyddiau Gwynn Davies, dros 30 o flynyddoedd yn ôl, a hynny i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu. Yna cafwyd braslun o'r holl weithgareddau sydd ynghlwm â gwaith yr Antur, sef Caergylchu, y Warws Werdd, Caffi Blas y Waun ar y safle yn Waunfawr, crefftau a nifer o brosiectau eraill. Roeddent wedi dod â chasgliad o nwyddau sydd ar gael yn y Siop, popeth wedi eu creu allan o ddeunydd wedi ei ailgylchu. Bydd croeso mawr i unrhyw un sydd yn dymuno ymweld â'r Antur yn Waunfawr. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r merched am oleuo pawb am adnodd mor werthfawr yn y gymuned gan Anita Owen.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 17eg. yn Festri Bethel gyda Gari Wyn yn annerch.

Annwyl drigolion Bethel,

### Cyfrifon y Neuadd Bentref

Mae'r cyfrifon ar gyfer y blwyddyn 2013-14 ar gael yn awr ac wedi ei gadarnhau yn gywir gan y cyfrifydd heddiw. Fel y gwyddoch, mae rhain yn ddogfennau cyhoeddus, ac oherwydd y swm enfawr o arian cyfalaf sydd wedi dod i fewn ac allan o fanc y Neuadd, roedd rhaid archwilio'r cyfrifon drwy gyfrifydd. Mae croeso i unrhyw un gysylltu â mi i drefnu i gael copi o'r ddogfen hon, drwy ebost neu drwy ffurf papur. Mi fydd y cyfrifon hefyd ar gael yn y Post Bethel.

Sion Jones

Cynghorydd Sir - Bethel a Llanddeiniolen ac Aelod Awdurdod Parc Eryri

Symudol - 07584 120238

Swyddfa Cynghorydd - Cynghorydd Sion Jones, Ystafell Llafur, Cyngor Gwynedd, Shirehall Street, Caernarfon, LL55 1SH

Gartref - 10 Cremlyn, Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AJ



DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
PRISIAU CYSTADLEUOL
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

grid 76
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



• Cardiau Busnes • Arwyddion
• Graffeg ar Gerbydau • Gwefanau a mwy...
Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

# Ar ben arall i'r lein



Mae'n ddrwg gennyf ddweud ei bod yn edrych yn debygol na fydd saga llygredd Llyn Padarn ar Afon Seiont yn dod i ben fel y disgwyl. Fel y cofiwch ychydig cyn y Nadolig fe gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei ail archwiliad i'r problemau - do fe oeddynt wedi dod i'r casgliad mai Dŵr Cymru oedd yn gyfrifol am lygru'r dyfroedd ond, yn anghredadwy, 'roeddynt o'r farn nad oedd a wnelo'r llygredd ddim â phroblemau'r torgoch, ac yn ogystal nid doedd adeiladu gorsaf 1st Hydro ac amddifadu Llyn Peris a'r holl afonydd eraill ddim i'w wneud â'r dirywiad chwaith.

Yn dilyn craffu manwl ar y penderfyniadau mae ein cynrychiolwyr, Fish Legal, wedi ysgrifennu at y corff amgylcheddol yma yn amlinellu'r gwallau yn eu penderfyniadau ac yn gofyn iddynt ail ystyried beth sy'n amlwg. 'Roedd sylwadau y corff i fod i law o erbyn dydd Llun, 16 Chwefror. Erbyn heddiw, sef yr 18fed doedd dim wedi ei dderbyn. Mae felly yn edrych yn debyg y bydd yn rhaid dychwelyd i'r llys a mynd trwy'r union gamau a arweiniodd at ein cais buddugol ddechrau Mai 2014.

Mae'n siomedig fod sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd i fod i warchod cyflwr ein amgylchedd, gyda'r wyneb i fynd yn erbyn pob cyfraith, a mwy na chyfraith, beth sy'n amlwg i bawb yn y fro. Mae cost i hyn hefyd, gan fod cost ein achos diwethaf wedi bod dros £40,000. Mae hyn wedi gorfod cael ei ad-dalu gan CNC. Ble mae'r arian yma yn dod - o'r pwrs cyhoeddus, wrth gwrs, ac mae hynny yn golygu o'n pocedi ni y cyhoedd. Cewch wybod yn rhifyn Ebrill sut mae pethau yn symud ymlaen.

Wrth grafu pen ar sut yr oedd y cadarnhad fod llygredd wedi digwydd ond nad doedd y llygredd na datblygiad Hydro Dinorwig ddim i wneud â phroblemau'r torgoch, mae'r geiniog yn araf ddisgyn pan mae rhywun yn gweld yr hysbysebu sydd wedi bod yn ddiweddar am gynllun hydro ar yr un dull â Dinorwig sydd ar y gweill yn Glyn Rhonwy. Do, fe wnaeth y gymdeithas wrthwynebu'n gryf yn erbyn y cais cynllunio ond ofer oedd y cwbwl. Be oedd ymateb yr awdurdodau sy'n gwarchod ein amgylchedd i'r cais – wel, pan oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn bod roedd gwrthwynebiad i'r datblygiad, ond y munud yr aeth yr asiantaeth yma yn angof a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei eni, fe ddiflannodd y gwrthwynebiad. Felly does dim syndod eu bod yn methu a chyfaddef fod datblygu hydro yn fygythiad i ddyfodol y torgoch a'r bysgodfa yn gyffredinol. Fe gyfeiriodd W.H. Canawy yn ei lyfr hynod ddiddorol A Snowdon Stream am berson yn wynebu pob ffordd - dyma yn union yr argraff rydw i a llawer i un arall yn gael o Gyfoeth Naturiol Cymru.

Yndi, mae cynllun Glyn Rhonwy yn dod gyda chost o tua £150 miliwn, os bydd i'r cwmni godi'r arian. Cyn dechrau bydd yn rhaid cael caniatâd amgylcheddol gan CNC, rydym yn disgwyl yn eiddgar pan ddaw hyn i dro - os daw i dro yw hyn, wrth gwrs..

Er hyn i gyd mae cryn edrych ymlaen am y tymor newydd, mae adroddiadau hyderus o'r Alban ac Iwerddon i'r perwyl fod nifer yr eogiaid ar gynnydd, gobeithio'n wir y bydd hyn yn cael ei efelychu yma yn dilyn dau dymor newynus dros ben. Y lle i'w drio gyntaf am eog yw'r Llyfni, gan ei bod yn dal i fod rhediad cynnar yn Nyffryn Nantlle. Dywedodd y diweddar Dr G. Owen a W.O. Williams, Penygroes, wrthyf flynyddoedd yn ôl, "Yn dilyn dau liw yn Ebrill dos i Glanrafon Bach a Llyn Dwy Garreg. Dyma'r ddau le byddai'r eog cynnar yn oedi am rhyw ychydig cyn diflannu i Lyn Nantlle." I gadarnhau hyn, pan adeiladwyd safle mesur dŵr ger Melin y Cim fe roddwyd cyfrifydd pysgod gyda chamerâu ar y criw am rhyw dri tymor. Un o'r darganfyddiadau mwyaf diddorol, heblaw gweld y cŵn dŵr yn sglefrio i lawr y criw, oedd cael cownt fod nifer o bysgod dros 40 modfedd o hyd yn rhedeg yr afon o wythnos olaf Mawrth at ddiwedd Ebrill. Dwi am wario cryn amser eleni ar Nantlle i edrych a oes posib cael gafael yn un o'r mawrion 'ma.

Er y cyfle am eog buan, y tebygrwydd yw mai Dywarchen fydd yn cael y sylw pennaf o 1af Ebrill. Mae'r cynllun stocio eleni wedi ei drefnu a bydd stoc yn cael eu gollwng yn fisol o Fawrth at Medi, mis yn ychwanegol i 2014.

Mae cynlluniau yn cael eu cwblhau i gynnal dyddiau 'Cyflwyniad i Sgota' ar Lyn Gwesty'r Seiont Manor, Llanrug, yn ystod wythnos gwyliau'r Sulgwyn. Yn ychwanegol i wersi sgota ac ati mae Cymdeithas Saethu a Cadwraeth (BASC), sy'n rhedeg cynllun cenedlaethol 'Saethwyr Ifanc' yn ymuno gyda'r gymdeithas yn y fenter. Bydd yn bosib cael ymarfer gyda'r enwair a wedyn symud ymlaen i gael hyfforddiant ar saethu colomennod clai. Cofiwch, os daliwch 'sgodyn cewch fynd ag o gartref ac i'r badell, ni fydd yn bosib - dwi'm yn meddwl - coginio'r golomen glai, ond efallai bod yna ffordd!! Bydd yr offer i gyd ar gael, ac yn bwysicach byth, bydd popeth am ddim. Ond bydd yn rhaid talu am beint yn y gwesty, wrth gwrs. Bydd mwy o wybodaeth maes o law, cadwch olwg ar ein safle we www.sgll.co.uk

'Roeddwn yn eithaf cenfigennus y diwrnod o'r blaen wrth fynd am dro bach i lawr y Finiog, ond yn ffodus 'roedd y camera yn fy mhoced a buom yn lwcus dros ben o gael llun yr hen Greyr Glas, neu gwell enw ar y 'sgotwr yma yw Ned Lord, a oedd mewn chwinciad gyda brithyll braf yn ei big - a dyma ei lun ichi. Mi geisiaf fy ngorau glas i gael un gwell ar 3ydd Mawrth.


Huw Price Hughes




# Arddangosfa o ffotograffau hanesyddol – a chais am wybodaeth








## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Clwb 300** Enillwyr mis Ionawr oedd: £30: Mrs Cadi Jones, Nant; £20: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waun; £10: Mrs R.A. Hughes, 15 Tref Eilian.

**Sefydliad y Merched** Ar Ionawr 9fed cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau. Roedd yn falch o allu croesawu aelod newydd i'r Sefydliad, sef Margaret Heard o Gaernarfon gan obeithio y bydd yn hapus gyda ni. Cynhaliwyd y cyfarfod dan ofal yr aelodau dan y testun 'Atgofion'. Cafwyd rhannu rhai o brofiadau yr aelodau o ddigwyddiadau o'r ganrif ddiwethaf. Diolchodd Catherine iddynt i gyd.

Yng nghyfarfod Chwefror 5ed roedd y Llywydd yn falch o allu dweud fod Gwilym, gŵr Mair Williams, wedi dod adref o'r ysbyty ac yn gwella yn ara deg. Dymunodd yn dda iddo. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Joe Large o'r Felinheli (Waunfawr gynt). Cafwyd ei hanes fel heddgeidwad yn Lerpwl. Roedd yn hanes hwylio g dros ben a Joe wedi dod â rhai o'r lluniau, dillad ayyb a ddefnyddiwyd gan yr heddlu bryd hynny. Diolchodd Catherine iddo am bnawn diddorol iawn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 5ed pryd y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yng ngofal Dafydd Iwan. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 y prynhawn ar y dydd Iau cyntaf o'r mis.

**Ymddeol** Dymunwn bob hapusrwydd i Yvonne Beech, Rose Mount, ar ei hymddeoliad wedi deng mlynedd ar hugain o weithio gyda'r Gwasanaeth Trallwyso Gwaed yng Ngogledd Cymru.

**Diolch** Dymuna Beryl, Dôl y Coed, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Yr Urdd** Dymuniadau gorau i aelodau Cangen yr Urdd fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a gynhelir yn Ysgol Uwchradd Brynrefail dydd Sadwrn, Chwefror 28.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau i Raymond ac Ann, Melin-y-wig, ar ddod yn daid a nain i wyres fach, Mari Cwellyn, merch i Lowri a Cemlyn a chwaer fach i Iolo Ffrancon. Mae Mari yn or-wyres i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan. Llongyfarchiadau i chi, Mrs Owen.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Dr Siôn Gwilym Pritchard ac Elen (Pen-y-groes) ar enedigaeth eu mab bach, Noa Gwilym.

**Croeso adref o'r ysbyty** Da deall fod Mr Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd, wedi cael dod adref o'r ysbyty. Hefyd mae Mr Robat Ap Wyn Williams wedi dod adref o'r ysbyty. Hyderwn yn fawr y bydd y ddau ohonoch yn cryfhau ac yn gwella yn ddyddiol.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Daniel, mab bach Bethan a Dylan, Stad Dôl Erddi, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth.

Hefyd gorfu i Mrs Edwards, Cobweb Cottage, dreulio cyfnod yn yr ysbyty ond wedi cael dod adref erbyn hyn.

**Anfonwn ein cofion** at Mrs Kit Jones, Stad Tref Eilian, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Siôn, Penrhos, wedi iddo gael dipyn o fraw fore Iau, Ionawr 22, o weld tân wedi cychwyn yn adeilad yr hen fecws yma yn y Waun.

**Colli un annwyl** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Mary Evans (gynt o Stad Tref Eilian) ond yn awr yng Nghartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon, yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Tomi, yn frawychus o sydyn. Roedd hefyd yn frawd i Wally Evans, Beudy Isaf, ac i Tecwyn Evans, Tremallt. Cydymdeimlwn â hwy a'u teuluoedd o golli brawd ac ewythr.

Hyderwn bod Mrs Mary Evans yn well wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Anfonwn ein cydymdeimlad** at Meg Elis a theulu Glanfa, yn eu profedigaeth o golli Mrs Mari Elis, mam annwyl Meg a nain arbennig i'r plant.

Daeth profedigaeth frawychus o sydyn i ran Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen. Bu farw ei brawd, Eric, a oedd yn byw yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn â hi yn ei cholled a'i hiraeth.

Daeth y golled o golli brawd i ran Doug Jones, Bron Eifion. Cydymdeimlwn ag ef a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth ei chwaer, Gweno, oedd yn byw yn Beeville, Texas, i ran Dylan Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd. Cydymdeimlwn yn ddwys ag ef a'r teulu yh eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys y Waun o dan ofal y Barch Gwenda Richards i'r teulu yma am hanner awr wedi wyth o'r gloch nos Sadwrn, Chwefror 14 i gyd-amseru â'r gwasanaeth angladdol yn Texas.

STRIKE – Elizabeth Gwendolen (Gweno). Yn sydyn yn Beeville, Texas ar 10fed Chwefror 2015 yn 77 mlwydd oed. Gwraig annwyl Howard, mam gariadus Paul a'i wraig Jennie a nain falch Ella ac Emma. Merch y diweddar Ifor ac Ellen Jones, Tŷ Capel Nazareth, Potnrug a chwaer arbennig Grace Wyn, Alun, Ifer, John Ian, Dylan Rhys, Gerallt a'r ddiweddar Ronwen a Wyn a'u teuluoedd.

**Anfonwn ein cofion** cynnes at Robin, Bryn Gwylan, sydd yn yr Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

**YMDDIHEURIAD** Yn rhifyn mai Chwefror o'r Eco, cyfeiriais at deulu Gors wedi colli perthynas, ond teulu Glan Gors oedd mewn profedigaeth.


YSWIRIANT FUW

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd- destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

# Cyfle i Fyfyrwyr Ymgeisio am Ysgoloriaeth Werth Chweil

Bydd mwy o gyrsiau nac erioed yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth William Salesbury y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni o £5,000.

Cafodd yr ysgoloriaeth ei chynnig am y tro cyntaf y llynedd gan Ymddiriedolaeth Cronfa William Salesbury, er mwyn ysgogi darpar fyfyrwyr i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg prifysgolion Cymru.

Mae dros 60 cwrs gradd ar gael yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg ac felly'n gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth eleni a bydd gan ymgeiswyr tan 20 Mawrth i gyflwyno cais.

Mae amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys Cymdeithaseg, Newyddiaduraeth, Ffrangeg a Hanes yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth eleni yn ogystal â graddau cyfun gydag Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Megan Mai Cynllo Lewis dderbyniodd yr arian y llynedd. Mae hi bellach yn dilyn cwrs gradd Astudiaethau Ffilm ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Mae'n anodd credu bod bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i mi gyflwyno cais am Ysgoloriaeth William Salesbury. Credaf fod cymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol trwy'r ysgoloriaethau yn hwyluso profiad yn y brifysgol ac mi fuaswn yn annog unrhyw un sydd eisiau dilyn cwrs perthnasol i ymgeisio. Felly ewch ati, mae'r broses yn syml a phob lwc i chi gyd!"

Mae Ysgoloriaeth William Salesbury yn ychwanegol i'r ysgoloriaethau israddedig a gynigir gan y Coleg Cymraeg.

Bydd myfyrwyr sy'n dymuno astudio cyrsiau ym meysydd gwyddoniaeth, daearyddiaeth, y gyfraith, chwaraeon, busnes, gwyddorau iechyd a mwy yn gymwys i wneud cais am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg o £1,500 cyn 8 Mai 2015.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Manon Llwyd, Swyddog Datblygu Marchnata a Chyfathrebu, ar 01267 610414, neu e-bostiwchm.llwyd@colegcymraeg.ac.uk

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

# CYMDEITHAS CYMRU-ARIANNIN

Cyfrol anhepgor am y Cymry ym Mhatagonia—yn rhad ac am ddim!

Yn 1865 hwyliodd ychydig dros 150 o Gymry o Lerpwl gyda'r bwriad o sefydlu Cymru newydd radical a Chymraeg ym Mhatagonia. Yr oedd yn ddechrau ar antur a fyddai'n ddylanwadol yn hanes Cymru ac Ariannin ac yn ysbrydoliaeth i lawer. Yn wir, oni bai am y Wladfa Gymreig yn Chubut, y mae'n bosibl y byddai ffiniau rhai o wledydd De America yn wahanol iawn heddiw.

Er na ddatblygodd y Wladfa yn union ar hyd y llinellau yr oedd yr arloeswyr cynnar wedi gobeithio, y mae'r diwylliant Cymreig yn dal yn elfen bwysig yn hunaniaeth Chubut. Y mae'r Gymraeg yn parhau yn iaith fyw yno. Gall fod cynifer â 5,000 o bobl Patagonia yn siarad Cymraeg heddiw; ond yr hyn sy'n fwy rhyfeddol byth yw bod y blynyddoedd diwethaf wedi gweld adfywiad syfrdanol yn y diddordeb yno mewn pethau Cymreig, gyda llawer yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg a rhai ysgolion bellach yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Sbaeneg. Ar ben hynny, y mae ysbryd arloesol, aberth a delfrydau'r Gwladfawyr cynnar yn parhau i ysbrydoli heddiw, nid yn unig yng Nghymru ac Ariannin ond ymhell y tu hwnt i'w ffiniau.

Fel rhan o ddathliadau 150 mlwyddiant sefydlu'r Wladfa Gymreig yn Chubut, y mae Cymdeithas Cymru-Ariannin wedi cyhoeddi Cydymaith i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia gan Eirionedd A. Baskerville. Y mae ar ffurf geiriadur bywgraffyddol ac yn cynnwys erthyglau am dros ddeugain o arloeswyr cynnar y Wladfa a'u disgynyddion. Cyhoeddiad electronig ydyw ac y mae ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim ar wefan Cymdeithas Cymru-Ariannin:

http://www.cymru-ariannin.com/uploads/cydymaith_ir_wladfa_gymreig_ym_mhatagonia.pdf

Y bwriad yw ychwanegu cofnodion pellach o bryd i'w gilydd ar unigolion, sefydliadau a phynciau amrywiol yn ymwneud â'r Wladfa. Am fod y Cydymaith yn gyhoeddiad electronig, bydd modd hefyd ddiwygio'r cofnodion presennol yn ôl y galw. Dylid anfon awgrymiadau am ychwanegiadau a chywiriadau at yr awdur i'r cyfeiriad ebost hwn: nonbaskerville@btinternet.com

Mae Eirionedd A. Baskerville yn gyn-aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Ceredigion. Y mae'n arbenigo ar hanes teuluoedd ac yn un o'n prif arbenigwyr ar hanes teuluoedd y Wladfa.

Mae'r Cydymaith hwn yn fwynglawdd o wybodaeth am bob agwedd ar y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia ac yn gyfeirlyfr anhepgor i bawb sy'n ymddiddori yn y bennod nodedig hon yn hanes Cymru ac Ariannin.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r awdur, Eirionedd Baskerville (nonbaskerville@btinternet.com) neu ag Ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin, Ceris Gruffudd (Rhoshelyg@btinternet.com).

Cymdeithas Cymru-Ariannin

Elusen gofrestredig rhif 507737

www.cymru-ariannin.org

# CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

Dyna'r pennawd ym mhapur newydd Yr Udgorn ym mis Medi 1913, ac mae'n disgrifio gwraig o Ebenezer a gafodd ganmoliaeth uchel am achub gwr rhag llosgi i farwolaeth. Ond roedd y papur bron i bedwar mis yn hwyr yn adrodd am y digwyddiad, oherwydd ym mis Mai y bu'r tân, a hynny ar y Stryd fawr ym mhentref Ebenezer.

Mae adroddiadau byr am y tân i'w cael yn Yr Herald Cymraeg, y Caernarfon and Denbigh Herald a'r North Wales Chronicle, ond ychydig iawn o wybodaeth a geir ganddynt. Gwyddom mai Grace Jones oedd enw'r wraig, a'i bod yn byw gyferbyn â thafarn y Bull. Ansicr yw'r papurau o'i hoedran hefyd. Mewn ambell adroddiad mae'n 75 oed. Mewn eraill mae'n tynnu am ei 70, eisoes yn 70 neu'n 74. Efallai nad oedd hi ei hun yn rhy siwr o'i hoed!

Ar y nawfed ar hugain o fis Mai, roedd Grace Jones wedi mynd i'w gwely. Yn lodjio yn y tŷ hefyd roedd gwr (nad yw'n cael ei enwi mewn unrhyw un o'r adroddiadau) a oedd yn amlwg yn gysgwr trwm iawn. Ganol nos ddeffrôdd Grace Jones a chael fod mwg yn llenwi ei hystafell. Sylweddololodd fod y tŷ ar dân a cheisiodd ddeffro'r lodjwr. Methodd! Llusgodd Grace ef allan o'r tŷ i'r stryd. Mae un adroddiad yn dweud iddi ei gario allan! Erbyn hyn roedd y plisman pentref ac amryw o bobl eraill wedi troi allan, a chariwyd y lodjwr i dafarn y Bull lle cafodd ei ddadebru. Mae'n ymddangos felly nad cysgu roedd y creadur, ond ei fod yn anymwybodol oherwydd effeithiau'r mwg.

A dyna'r cyfan a wyddom am y digwyddiad ei hun.

Ond mae'n amlwg i blisman Ebenezer adrodd yn ôl i rai o'i uwch-swyddogion am wrhydri'r hen wraig, oherwydd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf cafodd Prif Gwnstabl Sir Gaernarfon lawer o dystebau a rhoddion i'w cyflwyno iddi. Mae un o'r rheini ar gadw yn yr hen lyfrgell yn Neiniolen, sef y dysteb hardd a gyflwynwyd iddi ar ran y Liverpool Shipwreck and Humane Society. Dywedir ar y dysteb hon fod medal arian wedi ei chyflwyno iddi hefyd. Does wybod ble mae honno.

Derbyniodd dystebau eraill gan Ymddiriedolwyr Cronfa Carnegie (tystysgrif a £5), y Gymdeithas tuag at Waredu Bywyd rhag Tân (bathodyn a £10) a Medal y Gymdeithas Ddyngarol Frenhinol. Does dim sicrwydd ble mae'r tystebau hyn erbyn heddiw, os nad ydynt ym meddiant aelodau o'i theulu.

Ond a oedd gan Grace Jones deulu? Ym mhob adroddiad fe'i gelwir yn Mrs Grace Jones, ond does dim sicrwydd fod plant ganddi. Yr unig gliw arall a geir yn yr holl adroddiadau papur newydd yw'r ffaith ei bod yn dosbarthu'r Herald Cymraeg yn y pentref.

## Gwroldeb Gwraig Oedrannus.





Doedd dim amdani ond chwilio'r cyfrifiadau, a'i chael! Yn 1911 roedd yn byw yn Penrhos House, High Street, Ebenezer, ac yn disgrifio'i hun fel 'newsagent'. Roedd hefyd yn honni ei bod yn 70 oed (sef oedran gwahanol eto!) ac yn wraig weddw. Ddeng mlynedd yn gynharach, doedd hi ond 58 oed! Roedd wedi byw yno o leiaf ers 1881, ac am flynyddoedd yn cadw siop – 'toyshop keeper' yw ei disgrifiad. Roedd yn briod yn 1901, ond does dim son am ei gwr yn unrhyw gyfrifiad, ac nid yw'n sicr iawn o ble gafodd ei geni: NK (not known) a geir yn aml, ac unwaith ceir Cwm y Glo.

Tybed pa fath o degannau oedd ar werth ar Stryd Fawr Ebenezer ganrif a chwarter yn ôl? A beth ddigwyddodd i'r holl dystebau a dderbyniodd am ei dewrder? Pam mai dim ond un sydd ar gadw yn hen lyfrgell Deiniolen? Mae llawer mwy i'w ddarganfod am y wraig ryfedd, os nad rhyfeddol hon a ddaeth i sylw cymaint o gymdeithasau dyngarol am ychydig fisoedd yn 1913.

Gyda diolch i Meirion Jones, Clwt y Bont am dynnu fy sylw at y dystysgrif. Arnaf fi mae'r bai am safon y llun: mae'n anodd cael llun trwy wydr heb i fflach y camera gael ei adlewyrchu!

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996


J. M. JONES
a'i FEIBION
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffôn Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

# Cysylltiad yr Eos a'r Tylwyth Teg?

Fe wyddom mai'r ardal o Gwm Dwythwch dros lethrau Moel Eilio i Nant y Betws a draw i ddyffryn Colwyn a Beddgelert yw Gwlad y Tylwyth Teg, ond beth yw cysylltiad y bobol bach â'r eos? Yn 1818 – bron i ddau can mlynedd yn ôl bellach, adroddwyd fod yr eos yn canu yn beraidd ac yn hyfryd yn nyffryn Llanberis a Nant y Betws. "Tybiai y rhai a'i clywsai'n ddamweiniol am y tro cyntaf yn eu bywyd fod y Tylwyth Teg wedi dyfod ar ymweliad arall a'u nentydd." Mae'r dyfyniad yn awgrymu dau beth: fod cân yr eos yn rhywbeth dieithr i'r mwyafrif o boblogaeth yr ardal, a bod y Tylwyth Teg wedi dychwelyd i'r ardal.

Rhyw ugain mlynedd yn gynharach roedd William Williams,Llandegai yn honni fod y Tylwyth Teg wedi diflannu o Eryri, ac nad oedd nemawr neb yn credu ynddynt. Mae'r dyfyniad hwn yn awgrymu fod cân yr eos yn achosi i drigolion y ddau ddyffryn dybio fod y Tylwyth Teg wedi dod yn ôl!

Ond parhaodd y grêd ym modolaeth y Tylwyth Teg am ddegawdau wedyn. Honwyd iddynt gael eu gweld ar y Garreg Lefain ar lethrau'r Cefn du yn ystod dauddegau'r ganrif ddiwethaf!

A beth am yr eos? Faint o gofnodion sydd ar gael tybed yn sôn am gân yr aderyn hwn. Dyma apêl felly i naturiaethwyr y fro am wybodaeth.

# Ysgol Pentir.

Daeth ymateb o Fetws y Coed i'r hanes am sefydlu ysgol ym Mhentir. Gyda diolch i Delia Griffith am yr alwad ffôn ac am fwy o wybodaeth am yr hen ysgol. Mae adeilad yr hen ysgol a thŷ'r ysgolfeistr yn parhau i sefyll hyd heddiw; y ddau bellach yn dai mwy modern o lawer. Roedd (mae) yr ysgol yn ymylu ar dir y fynwent, ac yn cynnwys un ystafell fawr ac un arall lawer llai. Roedd cloch yr ysgol wedi ei gosod ar y talcen yn wynebu'r pentref. Bryn Awel yw'r enw ar y tŷ erbyn heddiw, ac yno y cafodd mam Delia Griffith ei magu, a'r teulu cynharach. Craigfryn yw'r enw ar hen Dŷ'r Sgwl, sydd y drws nesaf. Gyferbyn, ar draws y ffordd roedd tŷ'r ciwrad. Mae hwn hefyd wedi ei adnewyddu a'i foderneiddio erbyn heddiw. Wrth ei ochr (ond sydd bellach wedi ei ddymchwel) roedd adeilad hir, unllawr, sef Neuadd yr Eglwys, neu'r Church Hall fel y gelwid hi gan y trigolion. Yno y byddai trigolion y pentref a'r ardal o amgylch yn pleidleisio ym mhob lecsiwn, ac yno y cynhelid gwahanol gyfarfodydd adloniadol.

Un o'r rhesymau pam y gwyddai Delia Griffith gymaint o'r hanes yw'r ffaith fod yr Athro R.O.Roberts yn perthyn i'r teulu, ac yn ymwelydd aml â'r hen ysgol pan oedd ei mam yn byw yno.

# Hir-hoedledd ym mhlwyf Llanberis.

Yn 1821 yn y North Wales Gazette cawn ddau hanesyn am drigolion Llanberis. Nant Peris, wrth gwrs, a olygid bryd hynny, gan nad oedd pentref presennol Llanberis yn bodoli.

Yn Llwyn Bedw y trigai Morris Davies a'i wraig, y naill yn 89 oed a hithau'n 93 oed. Roeddent wedi bod yn briod am 64 mlynedd. Yn rhyfeddol, roedd 134 o'u disgynyddion yn dal yn fyw, sef 12 o blant, 66 o wyrion a 56 o orwyrion. Roedd Morris Davies yn mynychu'r Eglwys yn rheolaidd bob Sul, ond does dim sôn a oedd gweddill y teulu yn gwneud hynny! Byddai Eglwys Sant Peris wedi bod yn orlawn bob Sul!

Ond roedd Elin Owen yn hŷn na Morris a'i wraig. Yn 95 oed byddai'n cyrchu i'r mynydd yn rheolaidd i gasglu mawn ac eithin. Ac yn achlysurol, cerddai'r holl ffordd i Gaernarfon; pellter o ddeunaw milltir yno ac yn ôl, a hynny mewn diwrnod! A doedd y llwybr neu'r ffordd bryd hynny ddim yn hawdd iawn i'w droedio. Roedd angen dringo o Goed y Ddôl dros ardal y Clegir i gyrraedd Llanrug, a'r llwybr yn cael ei ddisgrifio gan y Parch Peter Bailey Williams, Rheithor y ddau blwyf, fel "a dangerous zig-zag." Tybed a oedd, fel Marged uch Ifan rai blynyddoedd ynghynt, yn defnyddio cwch ar hyd y ddau lyn nes cyrraedd Cwm y Glo? Byddai hynny wedi cwtogi mymryn ar ei thaith.

A'r adroddiadau hyn yw'r cyfan a wyddom am yr hynafgwyr hyn o blwyf Llanberis. Os nad oes rhai o ddisgynyddion y 134 yn parhau i fyw yn yr ardal. Rhowch wybod.

# Gwaith Gwerthu Dŵr.

Daeth cais am wybodaeth ynglŷn â gweithfeydd 'Mineral Waters' yn Llanberis, o bosibl o fewn côf rhai o'r darllenwyr. Mae'n bosib fod dau waith yn y pentref, neu fod un wedi newid perchnogaeth. Prin yw'r wybodaeth ar hyn o bryd.

Yn ystod y 1930'au roedd Edwin Parry yn fferyllydd yn y pentref a hefyd yn cynhyrchu 'mineral water'. Tybir mai hwn oedd yr Edwin Parry a fu farw yn 1942.


Hysbysebwyd y llall fel 'Hughes Brothers Mineral Waters' a hefyd yn enw E.Ll. Hughes, y ddau enw yn ystod 1935-36. Ond ai'r brodyr Hughes a fu'n cario ymlaen waith Edwin Parry? Ac ai'r un person yw'r Evan Lloyd Hughes a fu farw yn Llanberis yn 1947?


Bratiog iawn yw'r wybodaeth ar hyn o bryd. Apêl sydd yma felly am fwy o gnawd am yr esgyrn sychion.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254


www.fframia.com
FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

## PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Dymuna** Eiriona, Rhian ac Emyr Williams, Glyn Euron, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar ôl colli Ieuan – gŵr, tad a thaid annwyl iawn. Diolchir am y rhoddion ariannol anrhydeddus a gyflwynir i Uned Strôc Ward Prysor er cof am Ieuan, mewn cydnabyddiaeth o'r gofal a'r caredigrwydd a gafodd yno.

Gwerthfawrogwyd yn fawr wasanaeth teimladwy a chynnes y Parch. Marcus Wyn Robinson ddydd yr angladd, i Mair yr organyddes ac i Gwyndaf am bob cymwynas. Braf oedd gweld Eglwys Santes Helen yn llawn ac roedd hynny yn dystiolaeth o boblogrwydd Ieuan. Yn enedigol o Nefyn, bu'n gweithio fel Clarc of Wyrcs i'r hen Sir Gaernarfon ac yna fel Prif Arolygwr adeiladau Cyngor Gwynedd. Cyflwynwyd teyrngedau i Ieuan gan Mair (ei chwaer yng nghyfraith) ac i Anya a Lisa (ei ddwy wyres). Bu Ieuan yn aelod ffyddlon o Gôr Meibion Caernarfon a bu'n ysgrifennydd rhagorol iddynt am flynyddoedd. Darllenwyd llythyr o ddiolchgarwch am ei wasanaeth i'r Côr.

Cafodd Eiriona ac Ieuan 54 mlynedd o briodas hapus iawn ac fe fydd colled enfawr ar aelwyd Glyn Euron. Ond mi fydd atgofion melys a hapus yn aros ac yn sicr o roi nerth a chynhaliaeth yn yr hiraeth am Ieuan.

Trefnwyd yr angladd yn broffesiynol iawn gan Dylan a Meinir Griffith, Tros y Waen, a chydnabyddir yn ddiolchgar eu gofal caredig o'r teulu ar amser anodd iawn. Paratowyd lluniaeth gan Bopty Lleuar yn neuadd yr Eglwys.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned** Cydymdeimlir yn ddwys â Liz ac Eric, Jean a Wil, Henry, Philip a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli John, brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr hoff.

**Dathlu Gŵyl Ddewi** Cynhelir pnawn i ddathlu Gŵyl Ein Nawddsant yn y Neuadd Gymuned ddydd Gwener, Chwefror 27 am 2.30 yp (yn hytrach na Mawrth 2il fel yr hysbysebwyd ynghynt). Cymerir rhan gan blant yr Ysgol ynghyd â rhai o aelodau'r Pwyllgor. Bydd cyfle i gymdeithasu gyda phaned, bara brith a theisennau cri. Mynediad yn £2. Croeso cynnes i chwi rieni, teulu a ffrindiau.

**Dymunir** pob lwc i'r rhai fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Chwefror 28ain.

**Ysgol Sul Bosra** Dymuna aelodau'r Ysgol Sul anfon eu cydymdeimlad llwyraf at Pat ac Arnold, Eiriona, Rhian ac Emyr, Liz ac Eric a Jean a Wil a'r teuluoedd yn eu profedigaethau o golli anwyliaid. Mae amser prysur o'u blaenau gyda gweithgareddau ar gyfer y Pasg, ynghyd â dwy Gymanfa. Calondid mawr yw gweld cynifer o blant yn dal yn ffyddlon i'r Ysgol Sul.

**Eisteddfod Bentref 2015** Y mae aelodau'r pwyllgor yn awyddus iawn i wahodd unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol yr Eisteddfod Bentref i ddod i'w cyfarfod nos Lun, Chwefror 23, yn yr Ystafell Gymuned am 7.30.

Apelir am gefnogaeth ieuenctid, rhieni ifanc ac unrhyw un sydd â diddordeb ym mharhad Eisteddfod a fu'n hynod lwyddiannus hyd yn hyn, i ddod i'r cyfarfod hwn. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

## LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn.
Ffôn: (01286) 675384

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant Mis Chwefror oedd: 1. Iwan Roberts, Lleifior; 2. Mair Parry, Tir-Na-Nog, Bryn Moelyn.

**Gwaeledd** Mae sawl un yn y pentref yn cael cyfnod o salwch ac yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Hoffem anfon ein dymuniadau da at y canlynol a brysiwch wella:

Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan, wedi cael cyfnod yn yr ysbyty ond gartref yn awr.

Mr Gwilym Williams, Bron Eifion, yn dal yn yr ysbyty ond yn dechrau gwella.

Mrs Katie Davies, yn ôl yn yr ysbyty yn dilyn damwain ond hithau hefyd yn gwella.

Mrs Delyth Jones, Llys Ellen, Ffordd yr Orsaf, wedi cael llawdriniaeth yn dilyn damwain.

Mr Noel Roberts (Ffenestri Seiont), Bro Rhyddallt, yn gwella yn dilyn llawdriniaeth.

Doug Jones, 14 Minffordd, yn gwella ond yn dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Mair Parry, Bryn Moelyn, adref nawr yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Meurig Parry, Gwêl Fynydd, yn dilyn triniaeth yn Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd.

Alun Pierce, 14 Bryn Moelyn.

**Pen-blwydd Arbennig** Dymunwn longyfarch Mrs Gertie Kirkpatrick, nawr yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, ar gyrraedd ei 90 mlwydd oed ar 22 Chwefror. Cofion gorau atoch ac hefyd at Ellen Jones, ei chwaer, sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

**Diolchiadau** Fe ddymuna Dion ac Ellie ddiolch yn fawr iawn i gymdogion, ffrindiau a theulu am eu anrhegion hael ac am bob dymuniad da ar achlysur eu priodas.

**Profedigaeth** Dymunwn gydymdeimlo yn fawr iawn yn eu profedigaeth ag Ann Jones, Jonathan a Math, 4 Tai Bryn Afon, Crawia, yn dilyn marwolaeth Trefor, gŵr a thad annwyl. Hefyd â Gwilym ac Elaine Williams a Gemma, gan fod Trefor yn frawd i Gwilym, ac i'w fam yn y Waunfawr a gweddill y teulu sy'n byw yn lleol.

**Diolch** Dymuna Derek Owen, Gwen, Meical, Iwan a Liam, 26 Bro Rhythallt, ynghyd â Mrs. Phyllis Morris, Deiniolen, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn colli eu Ann annwyl ddechrau'r flwyddyn. Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard, Llanberis, am ei wasanaeth meddylgar ddydd yr angladd ac i Mr. Gwynfor Jones o gwmni E. W. Pritchard, Llanberis, am y trefniadau gofalus. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion anrhydeddus o £1,000 a gyflwynwyd i Ward Tryfan, am eu gofal o Ann tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolchir hefyd i Glwb Cymdeithasol Llanberis am baratoi'r lluniaeth yn dilyn y gwasanaeth.

TM JONES
SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD
SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia


## *Parhad* LLANRUG

**Achos Da** Penderfynodd Ella Louise Owen hel arian i Ward Alaw (Awyr Las) a bu'n brysur yn paratoi'r digwyddiad yn yr ysgol. Bu hi a Moli Pritchard yn holi'r athrawon ar amser cinio gan ddathlu diwrnod Santes Dwynwen yr un pryd. Mae'r ddwy yn byw yn Stad Glanffynnon.



*Ella Louise Owen & Moli Pritchard yn cyflwyno siec i staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.*

### Dion Owen ac Ellie Chung



Priodas Ar 19 Rhagfyr 2014 priodwyd Dion Owen, mab Elsie Owen a'r diweddar John Owen, Hafod y Rhos, gyda Ellie Chung o Fangor. Cafwyd y wledd briodas yn Seiont Manor lle dathlodd Dion ei ben-blwydd yn 30 oed ar y diwrnod canlynol. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y ddau deulu.

Blodau Racca
PENISARWAUN
Rhodd o'r Galon Yw Blodau
• Basgedi Planhigion
• Basgedi Crog
• Planhigion Gardd
Hefyd, Compost ar werth
Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

## CWM Y GLO

### Ysgol Cwm y Glo




Rydym yn diolch yn fawr i bawb ddaeth i'r ysgol i gefnogi ein gweithgareddau Nadolig.
Mae 'na dipyn wedi bod yn digwydd yma ers mis Ionawr.
Yr ymwelwyr a greodd y cynnwrf oedd Marian, Buddug, Debs a'u cŵn tywys. Roedd pawb yn hoffi cael clywed am y cŵn a sut maent yn cael eu hyfforddi. Rydym yn edrych ymlaen i gael dysgu mwy am gŵn tywys. Diolch yn fawr i Mr. Alan Pritchard am helpu i drefnu yr ymweliad.
Mae rhai ohonom wedi cystadlu yn y Gala Nofio. Miss Williams a Miss Johnstone ddaeth efo ni. Roeddym yn falch o gael cyfle i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill.
Daeth Sarah Archer o Gynllun Gwen i drafod sut i edrych ar ôl ein dannedd. Roedd pawb wedi synnu gweld faint o siwgr oedd mewn potel o ddiod pop. Rydym wedi gaddo brwsio ein dannedd yn iawn fel nad ydym yn cael dannedd drwg.
Mae ein ffrindiau o'r eglwys wedi bod draw yn adrodd ac actio stori Joseff i ni. Roedd y babanod yn hoffi gweld y cyflwyniad oherwydd roeddynt wedi gwneud gwaith ar y stori yn y dosbarth.
Fel rhan o'n gwaith thema roeddym wedi trefnu prynhawn coffi i'n rhieni. Roeddym eisiau casglu arian ar gyfer elusen 'Water Aid'. Rydym yn meddwl ein bod wedi casglu dros £100. Rydym yn falch oherwydd roedd rhaid gwneud llawer o drefniadau. Diolch i Anti Janet am help efo'r coginio.
Ethan a Dion Blwyddyn 6.



## *Parhad* CWM Y GLO

**Diolch** Dymuna Mrs Dilys Jones, 3 Mae Gerddi, ddiolcho galon i'w theulu a ffrindiau am bob caredigrwydd, ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri, Plas Pengwaith ac ar ôl dod adref.

**Genedigaethau** Llongyfarchiadau i Claire ac Alan, Bodlondeb, ar enedigaeth mab, Frankie, brawd bach i Enlli ac Alfie.

Hefyd Awen ac Aaron, Caedelyn, ar enedigaeth merch, Ilid Ena, chwaer fach i Lois Elen.

Hefyd Iwan a Carmen, London Garage, ar enedigaeth mab, Osian, brawd bach i Erin ac Efan ac ŵyr bach i Irfon a Heddwen.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Shan ac Owen, 2 Dôl Afon, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf, ganwyd mab bach, Caio Mark, i Rhian a Chris.

**Undeb Y Mamau** Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair pnawn Mawrth 17 Chwefror. Croesawodd yr arweinydd pawb i'r cyfarfod a'r wraig wadd Mrs Anne Jackson. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad gan Auriel am y cyfarfod a gafwyd ym mis Ionawr a thrafodwyd rhai materion. Cyflwynwyd Mrs Jackson gan yr arweinydd a'i phwnc oedd "The Bible Reading Fellowship" a'i rhan hi yn y mudiad.

Yn gofalu am y crempogau oedd Pat Walden a Mrs Nerys Ellis Jones Hefyd rhoddwyd y raffl ganddynt ac fe'i henillwyd gan Mrs Jackson. Diolchwyd i'r wraig wadd a'r gwesteion gan Dorothy.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 17 Mawrth.

### Dewi

Yr Hollalluog trwy enedau 'dyn'
grea arbenigrwydd yn hon a'r llall,
nes weithiau fe gawn gip ar Ef ei hun –
hyn yw'r arfaeth. Neu, a oes clocsiwr dall
yn tincran â'r olwynion bach sy'n troi –
y rhai rydd i'r byd ambell enaid mawr
y rhai dry gwrs ein hanes sy'n cyffroi
gan greu undod a chenedl teulu'r llawr?

Fab Non y santes, bôd felly oeddyt ti
yn etholedig un mewn dysg a dawn
wrth draed Paulinws ddall pan yn ei fri –
cyn – Glyn Rhosydd – a'th weledigaeth lawn,

lle'r gwireddaist y pethau bychain cain…
byw dy iaith a ffordd Gŵr y Goron Ddrain.

*Norman Closs*

'enedau' – genedau – genes – y fecanwaith ryfeddol sydd yn pasio nodweddion o'r ddau ryw i'r epil

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

## DINORWIG

**Gadael Cartref** Gyda thristwch mawr yr ydym yn deall fod Mrs Megan Morris, Minffordd, wedi gorfod gadael ei chartref a mynd i gartref preswyl Plas Garnedd yn Llanberis. Mae Mrs Morris yn un o blant yr ardal, wedi'i geni a'i magu yma ac wedi dwyn y plant i fyny yng Nghapel Sardis. Fe symudodd am gyfnod o'r Tŷ Capel i Fangor, ond yn ei hôl y daeth i Minffordd ac yno y bu'n cartrefu hyd at ddechrau'r flwyddyn. Pe buasai wedi cael aros yno tan mis Gorffennaf, buasai wedi cael dathlu ei chanfed pen-blwydd yno. Rwyf yn deall ei bod wedi cartrefu yn hynod od dda ac yn hapus yn Llanberis. Dymuniadau gorau ichwi yn eich cartref newydd a gobeithio y bydd yr iechyd yn gwella. Y mae yn gallu gweld Dinorwig o'i chartref. Pob diolch i Marsli ac Eurwyn am wylio drosti.

**Y Gysgodfan** Yn ystod 14eg o Ionawr cawsom ddiwrnod stormus iawn, tywallt y glaw ac yn andros o wynt cryf. A minnau, ar y diwrnod canlynol yn mynd am y bws i Gaernarfon, bûm yn hynod o lwcus, fel ag yr oeddwn yn mynd i basio heibio disgynnodd llechen o ben y Gysgodfan o'm blaen, eiliad yn gynt ac fe fuasai wedi disgyn ar fy mhen. Pan ddeuthum adref o'r dref fe fu imi ffonio y Cyngor Sir ond cefais ar ddeall mai y Cyngor Plwyf sydd yn gyfrifol yn awr. Gan faint y perygl dywedodd y Clerc yn y Cyngor Sir y buasent hwy yn pasio y gŵyn drosodd ac felly y gwnaethant, rhag ofn i rywun gael damwain. Diolch yn fawr iddynt am eu cymwynas. Cafodd y Cynghorydd Elfed Williams wybod ganddynt ac fe aeth yn syth at Mr John B. Jones a chafodd yntau un i ddod yno i'w hatgyweirio. Cefais air â fo ac fe ddywedodd fod oes y gysgodfan yn dirwyn i ben. Y pren wedi pydru a'r sment wedi cracio i gyd.

Bu yno am brynhawn cyfan ac y mae wedi gwneud hynny a allai. Nid wyf yn ei weld yn gallu ei hatgyweirio eto ond yn sicr ddigon fe wnaeth ei orau. Gan obeithio na chawn gymaint o wynt eto!

**Eira** Cawsom eira reit drwm yma rhwng nos Sul a dydd Llun, yr 20fed o Ionawr. Dim bws o gwbl a phawb yn gorfod cerdded, a dyn a ŵyr faint o gŵn oedd hyd y lle. Pawb yn cofio fod ganddynt draed. Fel rheol, mae blwch melyn ar dop yr allt yn llawn o halen, ond pan aed i edrych nid oedd dim ynddo, yr oedd pobl y tai isaf wedi ei gymryd. Popeth yn iawn ond top yr allt yw y lle gwaethaf, ac nid oedd dim i'w roi yno. Tybed a fuasai modd cael blwch ar waelod yr allt gan fod cymaint yn awr yn byw yn y gwaelod ac, yn sicr i'r dyfodol, fe fydd mwy yn preswylio yno. Gobeithio y bydd hyn yn bosibl ac yn gwneud pethau yn haws i bawb. Dim ond gofyn yr wyf.

**Cofion** Cofion anwylaf at Mrs Alice Griffith yn y cartref ym Mangor a gobeithio bod yr iechyd yn weddol. Deallaf hefyd fod y Parchedig William John Lewis yn yr ysbyty. Mae wedi bod yn was da iawn yn Ninorwig ac yn barod ei gymwynas bob amser, fel y gallaf fi dystio. Brysiwch wella, ein cofion at Mattie, ei wraig, hefyd.

**Un Funud Fach** Y mis diwethaf collwyd 'Un Funud Fach' o'r Eco ac erbyn y nos Sul ar ôl y dosbarthu cefais bedair galwad ffôn yn gofyn a fyddai yn yr Eco nesaf. Ni allwn roi ateb, dim ond fy mod wedi sylwi fy hun nad oedd yno. Yr oeddwn yn gwybod fod y Parchedig John Pritchard wedi bod yn reit brysur gan fod ganddo ddwy eglwys newydd o dan ei ofalaeth. Fe fu imi ofyn iddo a bu iddo gyfaddef mai rhwng pob dim iddo fynd yn angof ond fe ddylai fod yn y rhifyn yma.

Llongyfarchiadau mawr iddo fo a Mrs Pritchard ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Dyna be mae gwirioni hefo'r fechan yn ei wneud ichwi.

## Cyngor Gwynedd am weld datrysiadau Cymreig i'r system gynllunio

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig nifer o addasiadau ar amrywiaeth o agweddau ar Fil Cynllunio Llywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio, mae'r Cyngor wedi mynegi pryder am or-ddeddfu a chymhlethu'r broses a fyddai'n gallu arwain at bwysau ychwanegol ar adnoddau cynghorau lleol.

Fel rhan o'r sylwadau a gyflwynwyd, mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi cynnig addasiadau er mwyn ceisio sicrhau fod ystyriaeth deg a thrylwyr i'r iaith Gymraeg fel ystyriaeth faterol cynllunio.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio Cyngor Gwynedd:

'Mae'r ymgynghoriad yma yn rhoi cyfle arbennig i'r Cyngor gynnig newidiadau sylfaenol i'r gyfundrefn cynllunio a chyflwyno datrysiadau Cymreig i'r system gynllunio yma yng Nghymru.

'Tra'n bod yn croesawu llawer o'r hyn sy'n cael ei gynnig er mwyn cadarnhau'r ffaith fod materion cynllunio wedi eu datganoli, rydym yn awyddus i sicrhau nad ydi hynny yn arwain at symud dylanwad a phenderfyniadau yn ddiangen o lefel leol i Gaerdydd, nac ychwaith yn rhoi baich ychwanegol ar adnoddau prin Awdurdodau Cynllunio Lleol.

'Fel Cyngor, rydym wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o bwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod ystyriaeth deg i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeddfwriaeth newydd fydd yn edrych ar faterion cynllunio.

'Ein nod wrth gyflwyno ein diwygiadau ydi sicrhau statws cyfreithiol i'r iaith yn y ddeddf gynllunio newydd. Byddai sicrhau lle teilwng i'r iaith fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yn gymorth i sicrhau fod iaith a diwylliant cymunedau Gwynedd a Chymru-gyfan yn cael eu gwarchod a'u cefnogi.'

Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon ei sylwadau ar ymgynghoriad y Bil Cynllunio i Lywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn ystyried cyhoeddiadau pellach Gweinidog Tai ac Adfywio'r Llywodraeth dros y misoedd nesaf.

## Mudiad Meithrin yn mabwysiadu enw parth .cymru - www.meithrin.cymru

Mae Mudiad Meithrin yn falch o gyhoeddi ei fod bellach wedi newid ei enw parth i .cymru. Mudiad Meithrin yw'r darparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyntaf i wneud hyn yng Nghymru.

Trwy wneud hyn, mae'r Mudiad wedi uno â sawl sefydliad arall sydd wedi mabwysiadu enw parth .cymru yn ddiweddar megis, Urdd Gobaith Cymru; Merched y Wawr; Comisiynydd y Gymraeg; clwb rygbi'r Scarlets; Canolfan ABC, (sef Canolfan Astudio Busnes y Coleg Cymraeg Cenedlaethol); a'r cwmni crysau-t a hwdis poblogaidd, Cowbois.

Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Trwy fabwysiadu enw parth .cymru, mae'r Mudiad yn gwireddu un o'r targedau sydd wedi eu hamlinellu yn Dewiniaith (pwynt 3.9) sef gweledigaeth Mudiad Meithrin am y 10 mlynedd nesaf. Mae'r enw parth .cymru yn cynnig cyfle gwych i iaith a diwylliant unigryw Cymru i osod eu marc ar y byd digidol."

**Iola Jones**

**Cyfarwyddwr Marchnata**
**Mudiad Meithrin,**
**Y Ganolfan Integredig,**
**Boulevard de Saint-Brieuc,**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1PD**

**Ffôn: 01970 639639**
**Symudol: 07841 452607**

## Pencampwr Busnesau Bach Gwynedd yn annog rhwydweithio

Mae Pencampwr Busnesau Bach Gwynedd am annog unrhyw fusnes sydd ddim eisoes yn aelod o Rhwydwaith Busnes Gwynedd i wneud addewid i ymuno yn y flwyddyn newydd.

Yn 2015 bydd Rhwydwaith Busnes Gwynedd, sydd yn darparu cefnogaeth i fusnesau sydd yn gweithredu yng Ngwynedd, yn dathlu 10 mlynedd o lwyddiant. Nod y rhwydwaith yw:

- darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhyng–fasnachu trwy gyfrwng digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol;
- galluogi busnesau i gael gafael ar gyflenwyr lleol a hyrwyddo eu nwyddau a'u gwasanaethau;
- hysbysu perchnogion busnesau ynglŷn â digwyddiadau busnes, deddfwriaeth berthnasol a chyfleoedd busnes yn y sir yn rhad ac am ddim;
- cynnig fforwm i bobl busnes gael mynegi eu barn a'u pryderon ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu busnes;
- hyrwyddo dawn ac arbenigedd busnesau Gwynedd.

Mae bron i 700 o fusnesau Gwynedd yn aelodau o Rwydwaith Busnes Gwynedd ac mae'r niferoedd yn cynyddu! Bydd aelodau yn cyfarfod sawl gwaith yn ystod y flwyddyn i rwydweithio, rhannu ymarfer da a chynorthwyo i ddylanwadu ar strategaethau economaidd lleol a rhanbarthol drwy gysylltiad â'r sector gyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Siân Gwenllian, Pencampwr Busnesau Bach Cyngor Gwynedd:

'Busnesau bach yw calon economi Gwynedd ac yn y cyfnod ariannol heriol sydd ohoni, mae'n hyd yn oed mwy pwysig bod busnesau lleol yn gallu cefnogi ei gilydd i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Mae Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn galluogi i fusnesau dderbyn, a darparu cefnogaeth annibynnol a hanfodol i fusnesau'r sir.

'Ers fy mhenodiad yn Bencampwr Busnesau Bach Cyngor Gwynedd, rwyf wedi cyfarfod gyda swyddogion y rhwydwaith i ystyried sut gellir adeiladu ar y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng y rhwydwaith, busnesau Gwynedd a'r Cyngor a thrafod cynlluniau ar gyfer 2015.

'Byddwn yn annog unrhyw berchennog busnes yng Ngwynedd sydd ddim yn aelod o Rwydwaith Busnes Gwynedd i wneud adduned ar gyfer y flwyddyn newydd i ymuno. Nid yw'n costio ceiniog i fod yn aelod, ac rwy'n sicr byddai o werth i'ch busnes.'

Ychwanegodd John Lloyd o Inigo Jones a'i Gwmni Cyf, un o gyfarwyddwyr Rhwydwaith Busnes Gwynedd:

'Fel Cadeirydd Rhwydwaith Busnes Gwynedd a pherchennog busnes, mae bod yn aelod o'r rhwydwaith yn adnodd gwerthfawr ac o fudd mawr i'r busnes yn ei gyfanrwydd. Mae'r rhwydwaith yn rhoi cyfle i ni fel perchnogion busnesau ddod ynghyd a thrafod syniadau er budd economi Gwynedd.

'Bob wythnos, mae holl aelodau'r rhwydwaith yn derbyn pecyn o wybodaeth am ddigwyddiadau sydd yn cael eu cynnal yng Ngwynedd yn rhad ac am ddim ac mae sawl digwyddiad, gweithdai a sesiynau gwybodaeth eisoes wedi cael eu trefnu i gynnig cefnogaeth i fusnesau Gwynedd yn 2015 ac i ddathlu llwyddiant y rhwydwaith dros y 10 mlynedd diwethaf.'

Am wybodaeth bellach am sut all Rhwydwaith Busnes Gwynedd fod o gymorth i'ch busnes chi yn 2015 a thu hwnt ewch draw i'w gwefan:www.gwyneddbusnes.net Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn adran busnesau ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.gov.uk







## Cwis Pop C2 Radio Cymru 201

Llongyfarchiadau calonnog i dîm Ysgol Brynrefail, sef Siôn Emlyn Parry, Elliw Hughes, Mari Gibbard a Gwenllian Jones ar ennill Cwis Pop C2 Radio Cymru 2015. Bu'r pedwar yn brwydro yn erbyn Ysgol Plasmawr, Caerdydd, yn y rownd derfynol yn stiwdio BBC Cymru yng Nghaerdydd.

Wyddoch chi be? Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Ysgol Brynrefail ddod i'r brig yn yr ornest hon !



## Gwasanaeth Coffa'r Holocaust

Cynrychiolwyd Ysgol Brynrefail yng Ngwasanaeth Coffa'r Holocaust gan y Prif Ddisgybl, Caio Hywel a ddarllenodd 'Wna i Byth Anghofio' o waith Elie Wiesel. Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yn Siambr Dafydd Orwig ym Mhencadlys Cyngor Gwynedd, oedd yn orlawn o rai fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth ac eraill, yn eu plith criw o'r Chweched Dosbarth a ddaeth i dalu teyrnged.

Goleuwyd cannwyll er cof am bawb a gollwyd trwy weithred ddynol yn yr Holocaust a hefyd mewn trychinebau mwy diweddar.

Yr oedd yn wasanaeth dwys a dwysach nag arfer efallai am ei fod yn 70 mlynedd yn union ers rhyddhau'r trueiniaid o Auschwitz.

# “Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”





## Nodwch y Diwrnod

Ers cyfnod, y mae criw o’r Chweched Dosbarth wedi bod yn cyfarfod yn gynnar y bore cyn i’r ysgol ddechrau i drefnu cyngerdd fydd yn cael ei gyflwyno yn neuadd yr ysgol ar nos Iau 30ain, Ebrill 2015. Mi fydd yn gyngerdd gwerth chweil o ddoniau lleol ifanc a hen a bydd unrhyw elw a wneir ar y noson yn mynd tuag at gostau tri disgybl sydd yn mynd i Batagonia Hydref nesaf.



## Y Wladfa Amdani

Yn ystod tymor yr Hydref 2015 bydd Nia Haf, sy’n hanu o bentref Llanrug ac Adam Bragan, yntau o bentref Bethel yn teithio i’r Ariannin i gynrychioli Urdd Gobaith Cymru.

Bydd y ddau yn treulio amser yn gwirfoddoli yn y Wladfa ar ran yr Urdd, trwy weithio mewn ysgol gynradd Gymreig a hefyd gweithio gydag oedolion sydd yn rhugl eu Cymraeg.

Ond nid ar chwarae bach y mae cyllido'r fath fenter. Mae’r ddau yn wynebu costau o £2,400 yr un. Yr ydym ym Mrynrefail yn ceisio eu cefnogi trwy drefnu nifer o weithgareddau ac os fedrwch chi gyfrannu, yn unigolion, yn gymdeithasau neu yn gwmnïau, fe fyddwn yn hynod o ddiolchgar.




## Hawl i Holi

Ar ddydd Llun, 9fed Chwefror 2015, cynhaliwyd sesiwn ‘Hawl i Holi’ gyda disgyblion blwyddyn 12. Y panelwyr oedd Sion Jones, Aled Roberts, Alun Ffred Jones ac Antoinette Sandbach. Cadeiriwyd y sesiwn gan Adam Bragan a Rhidian Price. Bu’r ymateb gan y gynulleidfa yn frwdfrydig wrth i bynciau megis ‘toiledau cyhoeddus, technoleg 3G ac Iechyd gael eu trafod. Gobeithiwn y bydd diddordeb myfyrwyr y Chweched Dosbarth mewn gwleidyddiaeth yn parhau i dyfu wedi’r sesiwn yma

## ELUSEN AMAETHYDDOL R.A.B.I.

Elusen amaethyddol yw R.A.B.I(Royal Agricultural Benevolent Institution) sy'ncefnogi teuluoedd yng Nghymru a Lloegr sydd unlai'n ffermio, neu wedi ymddeol o'r byd amaeth. Rydym yn gallu helpu pan fo'r esgid fach yn gwasgu am nifer o resymau.

Sefydlwyd yr elusen yn 1860, a medrwn gynorthwyo ffermwyr a gweithwyr amaeth, dros dymor byr: er enghraifft yn dilyn salwch, damwain, profedigaeth, teulu'n chwalu, neu glefydau ar anifeiliaid. Gallwn, yn ogystal, gynnig cymorth hir dymor i bobl hŷn, pobl sydd wedi ymddeol o'r diwydiant amaeth, a phobl anabl o bob oed.

Mae'r elusen yn medru trefnu grantiau'n gyfrinachol i deuluoedd neu unigolion sy'n gysylltiedig â'r byd amaeth os ydy hi'n fain arnyn nhw.Rhaid i bob darpar ymgeisydd neu i gyn partner (gŵr neu wraig) fod wedi ffermio am o leiaf 10 mlynedd, a heb gynilion dros £10,000.

Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cyngor ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, grantiau rheolaidd, neu daliadau brys. Gallwn helpu gyda biliau cyfleustodau, gan gynnwys olew gwresogi yn y gaeaf, a nifer o gostau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a'r cartref. Gallwn hefyd dalu am offer arbenigol, nwyddau hanfodol i'r cartref, a chostau teithio i'r ysbyty. Rydym yn asesu pob cais a dderbynnir gennym yn drylwyr. Os yw'r ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cymorth, byddwn yn teilwra'r cymorth yn unol â'r angen. Rydym weithiau'n gallu cynorthwyo gyda ffioedd cartrefi gofal, a chostau cymorth-cartref pan for angen.

Nid yw R.A.B.I. ar unrhyw gyfrif yn talu biliau busnes y fferm, ond gallwn dalu am staff: er enghraifft, pan fydd rhywun yn methu â gweithio oherwydd salwch neu ddamwain. Rydym yma i gefnogi pobl, nid busnesau aflwyddiannus.

Mae Cynllun Porth (Gateway) yn gallu talu am hyfforddiant i alluogi pobl i ddatblygu sgiliau i gael gwaith oddi ar y fferm, er mwyn ychwanegu at incwm y fferm.

Mae gwasanaeth R.A.B.I. yn gwbl gyfrinachol. Am resymau amlwg, mae'r bobl rydym yn eu helpu yn annhebygol o ddweud wrth eraill am y cymorth a gânt.

Os ydych yn credu y gallwn ni eich cynorthwyo chi, cysylltwch drwy rad ffôn cyfrinachol 0300 3037373, neu e-bostiwch grants@rabi.org.uk <mailto:grants@rabi.org.uk>

Am ragor o wybodaeth ynghylch gwaith R.A.B.I. mae croeso i chi gysylltu â Mel Jones ar 01286 673078 neu 07764-470398.

# *Ymgyrch "Gweld Sêr" yn Eryri*

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd cyfle i drigolion a busnesau yn Eryri ddarganfod mwy am ymdrech Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ennill statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol i Eryri.

Erbyn hyn, mae llygredd golau yn broblem fawr gynyddol ar hyd ac ar led Prydain. Gall defnyddio gormod o olau neu olau anaddas fod yn gostus, gall adael gormod o ôl troed carbon, a gall fod yn niweidiol i'r tirlun ac yn bendodol i fywyd gwyllt y nos. I'r perwyl hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am ymgeisio am statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol i Eryri.

Fel rhan o'r gwaith cychwynnol, bu rhai o staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gwirfoddolwyr o Gymdeithas Eryri ac eraill yn cofnodi golau yn y nos ac fe gomisiynwyd yr arbenigwyr golau James Paterson a Malcolm Mackness, i gynnal arolwg o oleuadau yn Eryri. Gyda chymorth gwirfoddolwyr ac wedi oriau o arolygu, fe ddaethpwyd i'r casgliad fod gan Eryri wir botensial fel cyrchfan i ymwelwyr awyr dywyll, a bod yr awyr dywyll yn Eryri yn hynod o werthfawr ac o'r herwydd fe ddylai'r Awdurdod ei warchod.

Ar ran yr Awdurdod, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Jonathan Cawley,

"Fedrwn ni ddim anwybyddu manteision bod yn ardal sydd wedi ei dynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll. Bydd bywyd gwyllt yr ardal yn cael ei ddiogelu, bydd ansawdd yr amgylchedd yn gwella, a bydd atyniad naturiol newydd i ddenu ymwelwyr newydd i Eryri ar gyfnodau tawel o'r flwyddyn. Bydd hyn yn ei dro yn gwella'r economi leol a bydd awyr dywyll Eryri yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fyddwn ni ddim yn mynnu fod goleuadau nos yn cael eu diffodd a fyddwn ni ddim yn gofyn i neb wario symiau mawr o arian yn newid eu holl oleuadau! Y cyfan ofynnwn ni yw i bobl addasu eu defnydd o olau. Mae'n bwysig i ni esbonio mwy a chael cydweithrediad trigolion Eryri yn hyn o beth. Rydym felly wedi paratoi cyfres o gyfleoedd i'r cyhoedd gyfarfod a thrafod oblygiadu'r statws gyda'n swyddogion."

I'r perwyl hwn, trefnwyd cyfres o nosweithiau galw i mewn yn y lleol rhwng 5.30 ac 8 o'r gloch yr hwyr. Bydd y mwyafrif o'r cyfarfodydd eisoes wedi eu cynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, ond mae cyfle i alw'i mewn yn Neuadd Bentref Beddgelert ar nos Lun, yr 2il o Fawrth.

Am fwy o fanylion, cyswylltwch â Gethin Davies yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, 01766 770274.

Sefydliad di-elw ddechreuodd yn yr Unol Daleithiau dros chwarter canrif yn ôl yw Sefydliad Rhyngwladol Awyr Dywyll a'i nod yw gwarchod a diogelu amgylchedd y nos. Un agwedd ar waith y sefydliad yw gwobrwyo lleoliadau sy'n gallu profi fod eu hawyr nos o ansawdd rhagorol ac sy'n ymdrechu i leihau llygredd golau.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

# GWOBRAU YSGOLORIAETH I FYFYRWYR LLWYDDIANNUS







Derbyniodd enillwyr YSGOLORIAETHAU ym Mhrifysgol Bangor eu gwobrau yn y noson cyflwyno Ysgoloriaethau Mynediad a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dyfarnwyd 65 o ysgoloriaethau i gyd, gwerth bron £142,000, i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf newydd. Roedd y mwyafrif ohonynt yn derbyn gwobrau Ysgoloriaeth ar ôl rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol ei hun, neu am eu llwyddiant academaidd arbennig yn eu harholiadau lefel A.

'Gan Brifysgol Bangor y mae un o'r cynlluniau ysgoloriaeth mwyaf hael yn y wlad,' meddai Carys Roberts, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr.

'Mae ein hysgoloriaethau'n golygu ein bod yn gallu cydnabod a gwobrwyo'r rhai sydd naill ai'n rhagori yn ein harholiadau ysgoloriaeth, neu'n cael tair gradd A neu uwch yn eu harholiadau lefel A.

'Rydym yn awyddus iawn i ddenu'r myfyrwyr gorau i Brifysgol Bangor ac i gefnogi'r myfyrwyr yma gymaint â phosibl,' ychwanegodd.

Mae gan Brifysgol Bangor - a ddaeth yn uchaf yng Nghymru am foddhad myfyrwyr - werth dros £3.7M o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr newydd a rhai'n dychwelyd ym Medi 2015. Ceir mwy o fanylion yn www.bangor.ac.uk/scholarships

Roedd dwy o gyn ddisgyblion Ysgol Brynrefail ymhlith yr enillwyr eleni, sef:

Ysgoloriaeth Ysgol Athroniaeth a Chrefydd a Ysgoloriaeth Deilyngdod:

Gwelir Kimberley Siobhan Jones o Lanberis, Gaernarfon, yn derbyn siec o £3000 gan yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-ganghellor o Brifysgol Bangor. Mae Kimberley yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac, erbyn hyn, mae'n astudio Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Athroniaeth a Chrefydd ac Ysgoloriaeth Teilyngdod iddi ar ôl iddi ragori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol.

Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Gwyddorau Naturiol:

Gwelir Ffion Jones o Lanrug, Gaernarfon, yn derbyn siec am £3500 gan yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy Is-ganghellor o Brifysgol Bangor. Mae Ffion yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac, erbyn hyn, mae'n astudio ym Mhrifysgol Bangor. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Gwyddorau Naturiol iddi, ar sail ei graddau Lefel A. Mae Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Prifysgol Bangor yn cael eu dyfarnu i'r myfyrwyr newydd sydd â'r cyrhaeddiad academaidd uchaf yn eu pynciau penodol.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

# DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

## Dathlu'r Cant.



**Llongyfarchiadau** mawr i Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen ar gyrraedd ei 100 oed ar Chwefror 24ain.

Pob dymuniad da i'r dyfodol gan obeithio iddi fwynhau y dathlu gyda'i theulu a'i ffrindiau.

## EDWARD CHARLES (EDDIE) SAYNOR

3 Heol Dewi, Bangor, gynt o 3 Green Terrace Deiniolen. Bu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yng nghwmni ei deulu, Nos Lun Rhagfyr 22ain, yn 72 mlwydd oed.

Yn enedigol o Gaernarfon symudodd i Ddeiniolen ar ol cyfarfod ei annwyl 'Hild' ac roedd gan y ddau ohonynt feddwl y byd o'u plant, Nia a Gavin, a'r 'cywion bach', Deian Wyn ac Erin Haf. Gweithiodd sawl swydd, ond fel porthor yn Neuadd JMJ ym Mhrifysgol Bangor gorffennodd ei yrfa waith – ac roedd yn hynod falch o allu gofalu am gymaint o bobl ifanc oedd yn ymgymeryd â cham mor bwysig ar eu taith drwy'r system addysg. Roedd Eddie yn gefnogwr brwd o Manchester City ac wrth ei fodd yn cyfarfod ei ffrindiau am gêm o dominôs yn y Crosville ym Mangor. Bydd pawb a chafodd y pleser o rannu cwmni hwyliog a chariadus Eddie yn gweld ei golli yn fawr iawn.

Cynhaliwyd yr Angladd yn Amlosgfa Bangor ar Ragfyr 31ain. Gwasanaethpwyd gan y Parchedig Eifion Williams. Y Cludwyr oedd Ken Saynor, Ieuan Morris, Trystan Elis Morris a Dylan Williams. Y prif alarwyr oedd Hilda (priod), Nia a Gavin (merch a mab), Dylan a Ffion (mab a merch-yng-nghyfraith), Deian Wyn ac Erin Haf (wyr a wyres) a Ken a Pat (brawd a chwaer-yng-nghyfraith) a gweddill ei deulu, ffrindiau, gyd-weithwyr a chymdogion. Talwyd teyrnged arbennig iddo gan ei fab, Gavin. Anfonwyd blodau gan Hilda; Nia a Dylan; Gavin a Ffion; Deian ac Erin; Ken, Pat, Geraint a Bryn; Dave a Kevin; Ieu, Nia, Jen a Tryst; Gwyn, Eleri, Simon, Heather, Kelly, Frank, a'r plant. Derbyniwyd rhoddion yn garedig tuag at Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd, lle cafodd ofal arbennig iawn yn ystod ei waeledd. Cynhaliwyd lluniaeth yr angladd yng Nghlwb Crosville, Bangor. Trefnwyd yr angladd yn ofalus ac yn arbennig gan Dylan a Meinir Griffith.

Hoffai Hilda, Nia a Gavin, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob cymorth ac arwydd o garedigrwydd yn dilyn profiad eu gwr a thad annwyl, a hoffent ddatgan eu gwerthfawrogiad dwysaf i Dylan a Meinir ac i'r Parch Eifion Williams a'r Parch Trefor Lewis.

## Llwyddiant Offerynnol



Dydd Sadwrn, 7fed o Chwefror, yn Galeri Caernarfon cynhaliwyd Pencampwriaethau Unawdau, Deuawdau a Grwpiau Bandiau Pres Gogledd Cymru. Y ddau feirniad oedd dau amlwg ym myd y Bandiau Pres, sef John Powell a Paul M. Walton ac roeddent yn canmol y safon uchel a glywsant.

Roedd mynd mawr ar y cystadlu drwy'r dydd a hyfryd o beth oedd gweld rhieni a ffrindiau yn cefnogi.

Yr oedd nifer dda o Fand Ieuenctid a Band Mawr Deiniolen yn cystadlu a ddaeth llwyddiant i ran Gerallt Owen (1af o Dan 10), Elin Dafydd (2il o Dan 10), Ela Williams (2il rhwng 10 ac 12), Dylan Efans (3ydd rhwng 10 a 12), Lois Angharad (1af rhwng 12 ac 14), Tomos Efans (2il rhwng 14 a 16), Richard Efans (1af rhwng 16 a 18), Megan Jones ac Ela Herbert (Deuawd o dan 14), Dylan Williams ac Ela Williams (1af yn y ddeuawd agored), Urien Sion ac Arwel Williams (2il yn y ddeuawd agored), Ela Williams (1af yn yr air varie o dan 14), Lois Angharad (2il yn yr air varie o dan 14), Twm Herd (3ydd yn yr Air Varie dan 14), Tomos Efans (2il yn yr air varie o dan 18), William Porter (3ydd yn yr air varie dan 18), Jac, Ela, Bethan a Twm (1af yn y grwp dan 14), Richard, Tomos, Lois a William (1af yn y grwp dan 18), Dylan Williams (1af yn yr unawd agored), Urien Sion (2il yn yr unawd agored), Dylan Williams (1af yn yr air varie agored), Dylan, Jeni, Emyr, Urien a Rachel.

Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant ac i bawb a fu'n cystadlu. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi a diolch i'r cyfeilyddion am eu gwaith.

Eleni cyflwynwyd Tlws Coffa Iwan Williams am y chwaraewr mwyaf addawol tu allan i'r gwobrau yn adrannau 1 a 2 i Elen Llestyn o Fand Llanrug. Ar ddiwedd y cystadlu enillodd Deiniolen y wobr am y nifer mwyaf o farciau a hyn am y trydydd tro yn hanes y gystadleuaeth.

# *Parhad* DEINIOLEN

**Cylch Meithrin** Dyma flwyddyn newydd wedi ein cyrraedd ac mae deunaw o blant gyda ni yn y Cylch yn sesiwn y bore a'r prynhawn. Bydd rhai ohonoch wedi gweld posteri o gwmpas y pentref yn atgoffa'r rhai hynny ohonoch chi sydd â phlentyn fydd yn ddwy a hanner rhwng mis Medi 2015 ac Awst 2016 i ddod i gofrestru yn y Cylch, os yr ydych yn dymuno i'ch plentyn ddechrau gyda ni. Yr ydym yn agored o 9yb hyd 11yb a 12.45-3yh os yr hoffech ddod am sgwrs neu i gasglu pecyn cofrestru. Edrychwn ymlaen i weld wynebau newydd yn ymuno â ni!

**Pen-blwydd arbennig** Llongyfarchiadau i Tania Jones, 7 Pentre Helen, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fawrth 14eg.

**Cymdeithas Undebol** Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol nos Lun, Ionawr 26ain. Cafwyd sgwrs ddifyr a phrawf am ôl rifynnau Y Gronyn. Dangoswyd lluniau i'n atgoffa o rai o'r bobl a digwyddiadau y bu sôn amdanynt yn Y Gronyn ers Medi 2001. Roedd ambell un yn cofio'n dda iawn! Cyflwynwyd y diolchiadau i'r Parch John Pritchard gan Mr John Ll. Williams am roi noson ddifyr iawn i ni.

**Eglwys Crist** Dyma gyfraniadau a dderbyniwyd i gynnal a chadw mynwent Eglwys Crist Llandinorwig yn ystod ail hanner 2014. Alun a Maureen Evans, 32 Stryd Newydd: £5. Mrs Gwenda Sayer, Caernarfon: £40. Mrs Elaine Bowser, Llundain: £50. Mrs Delyth Pritchard, Pwllheli: £10. Mrs Edna Morgan, Caerdydd: £100. Dawn Parry: £10. Miss Ffion Haf Jones, 1 Bro Elidir Dinorwig: £10. Mr Meirion Thomas, 11 Tai Caradog: £50. Mr Llew Jones, 4 Bro Elidir, Dinorwig: £50. Mrs Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog a Mrs Iona Owen, Eithinog, Bangor: £20. Mrs K.M. Williams, 10 Rhes Marian: £10. Mr a Mrs Gareth W Jones, Miskin, Caerdydd: £10. Miss Mair Foulkes, 3 Tai Brynhyfryd, Penisarwaen: £50. Megan a Hefin: £20. Ann a Ceri Foulkes: £10. Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd: £10. Mrs Awen Roberts, Rhuddlan, Sir Ddinbych: £10. Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu: £10. "Bingo Elidir" Deiniolen: £50.

Gan nad ydym yn derbyn unrhyw nawdd gan gynghorau lleol ac yn dibynnu'n llwyr ar garedigion i gynnal a chadw'r fynwent, byddem yn dra ddiolchgar am unrhyw rodd ariannol i gario y gwaith ymlaen. Byddai Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu Mrs Gwen Griffith, Fron, Deiniolen yn falch o dderbyn eich cyfraniadau neu unrhyw aelod o'r eglwys.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch** Mi fydd noson dewis brenhines Gŵyl eleni yn cael ei chynnal Nos Fercher, 25ain o Chwefror yn Nhŷ Elidir rhwng 6.00 a 7.00. Dewch yn llu.

Casglwyd arian yn ystod noson rhoi goleuadau Nadolig y pentref ymlaen tuag at ymgyrch Oxfam yn erbyn y clefyd Ebola. Cyflwynwyd cyfanswm o £76.44 i'r elusen. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Wyl yn ddiweddar, siomedig iawn oedd y nifer a fynychodd. Er hynny mae swyddogion wedi eu hethol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Felly dymuna'r pwyllgor wneud cais arbennig am fwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu gweithgareddau eleni. Mae cyfarfod wedi ei drefnu eto ar y 5ed o Fawrth am 7.00 yn Nhŷ Elidir. Mae wir angen mwy o griw i gynorthwyo gyda'r gwaith trefnu o rwan hyd at yr Ŵyl, fydd yn cael ei chynnal eleni yn ystod wythnos 13eg i'r 20fed o Fehefin. Criw bychan iawn sydd yn gwneud y gwaith ar hyn o bryd felly mi fyddai cael mwy o unigolion o gymorth mawr tuag at llwyddiant yr Ŵyl eto eleni gan obeithio y byddai wynebau newydd yn gallu cynnig syniadau newydd yn ogystal. Mi fyddai'r pwyllgor yn falch o unrhyw gymorth a gobeithio y daw nifer i'r cyfarfod ar y 5ed o Fawrth.

**Dymuna** Sioned Evans, 88 Pentre Helen, ddiolch i'w theulu agos a'i ffrindiau am yr holl gardiau, arian ac anrhegion wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed.

**Dymuna** Brenda Williams, 6 Rhydfadog, ddiolch o gallon i'w theulu am y syrpreis mawr a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar, daeth pawb o'r teulu o bell ag agos i gymryd rhan yn y dathlu. Diolch hefyd i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a blodau. Pen-blwydd i'w gofion yn wir!

## Merched y Wawr

Daeth nifer dda o'n haelodau i'r cyfarfod cyntaf eleni ar noson eithriadol o oer. Yn absenoldeb ein llywydd, cymerodd Marian yr awenau. Croesawodd yr aelodau a braf oedd cael croesawu dwy aelod newydd atom. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann a Delyth. Trefnwyd timau ar gyfer bowlio 10 ar y 13eg o Chwefror yn Glasfryn, Y Ffor, a chafwyd enwau rhai oedd yn awyddus i fynd i Wyl y Pum Rhanbarth. Daeth Buddug â ffurflen noddi distawrwydd noddedig Pwyllgor Arfon er budd yr Anabl. Bwriedir codi arian eleni at ieuenctid a phlant sydd â nam ar eu golwg.

Cyflwynwyd y noson wedyn i un o'n aelodau, sef Mona, sydd yn arbennig-wraig ar waith croesbwyth. Roedd wedi dod â samplau o'i gwaith i ni eu gweld. Wedyn cawsom gyfle i geisio gwneud croesbwyth ar ddarn bach mewn ffurf cannwyll ac roedd cryn frwdfrydedd ymysg yr aelodau. Diolchwyd i Mona, a Lynda ei merch, am roi noson bleserus iawn i ni. Cawsom baned a bisgedi i orffen, wedi eu paratoi gan Helen a Valmai.

A gallwn gyhoeddi fod dau dîm o gangen Deiniolen wedi cipio'r wobr gyntaf a'r ail yng nghystadleuaeth bowlio 10 yng Nglasfryn, da iawn chi ferched.





## *Ysgoloriaeth Iwan Williams*

Yn ddiweddar, fel rhan o Ysgoloriaeth Iwan Williams, cynhaliwyd diwrnod o ddosbarth meistr i aelodau o Fand Iau Deiniolen gyda arweinydd Band yr Oakley John, Glyn Jones, a'r tiwtor profiadol, Dylan Williams. Daeth 25 o ieuenctid at ei gilydd (o 6 i 10 oed) i fwynhau'r diwrnod gan ddysgu sgiliau a thechneg i fod yn chwaraewyr pres y dyfodol.

Dywedodd arweinydd y Band Iau, Llio Tomos:

"Roeddem yn ffodus i gael dau diwtor profiadol yma sydd wedi cyflwyno llawer o syniadau a sgiliau newydd i'r aelodau. Roedd y plant yn llawn brwdfrydedd yn ystod y dydd. Rydym yn edrych ymlaen i weithio gyda Dylan a John Glyn unwaith eto yn y dyfodol agos. Mae'r dyfodol yn sicr yn ddisglair gyda cyfanswm o 65 o aelodau rhwng y Band Ieuenctid a'r Band Iau."

Ychwanegodd Dylan Williams:

"Roedd y prynhawn yn un arbennig ac mae nifer o chwaraewr talentog yn y band Iau. Roedd pawb wedi gwrando ar yr hyn oedd gennyf i'w ddweud ac roeddwn yn falch iawn o weld y datblygiad sydyn oedd y plant wedi ei wneud mewn cyfnod byr. Edrychaf ymlaen i ddod yn ôl atynt yn y dyfodol agos."

Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod a hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb wnaeth gynorthwyo i wneud y diwrnod yn llwyddiant.


Roedd John Glyn yn ogystal wedi mwynhau ac ychwanegodd:

"Dyna beth oedd criw egniol ac mae'n rhaid i mi ganmol y system Ieuenctid sydd gan y band. Mae dyfodol band Deiniolen yn saff yn nwylo'r tiwtoriaid ymroddgar. Mi wnes i fwynhau'r diwrnod yn arw."

Dymuna'r Band Ieuenctid a'r Band Iau gymryd y cyfle yma i ddiolch i bwyllgor Ysgoloriaeth Iwan Williams am dderbyn y wobr am 2014.



**Llongyfarchiadau** i Elin Dafydd ar ddod yn 2il yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Gogledd Cymru yn y Galeri ar y 7fed o Chwefror.


ETHOLIAD CYFFREDINOL **SAN STEFFAN**

**DYDD IAU | 07 MAI | 2015**

Plaid Cymru

Hyrwyddwyd gan Llyr ab Alwyn | 3 Bythynnod Dinas | Dinas |Caernarfon | LL54 5UA ar ran Hywel Williams AS Plaid Cymru | 8 Stryd y Castell | Caernarfon | LL55 1SE

# Dyfodol Llyfrgell Deiniolen.

Ar ddiwedd y llynedd daeth y newydddion fod Llyfrgell Deiniolen dan fygythiad. Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen eisoes wedi trafod yr oblygiadau yn eu cyfarfod (gweler O'r Cynghorau ar dudalen 27). Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y llyfrgell ei hun hefyd. Yma, cyhoeddwn adroddiad gan Idris Thomas, aelod o'r Cyngor Cymuned, a llythyr a anfonwyd gan y Cynghorydd Elfed Williams (sydd hefyd yn trafod Cartref Noddfa yn y pentref ).at Ioan Thomas, ( Aelod Cabinet gyda gofal am Lyfrgelloedd).

12 Ffordd Deiniol, Deiniolen
Caernarfon , Gwynedd
LL55 3LL
01286 871406 / 07729 394230

28 Ionawr 2015
Cyng Ioan Ceredig Thomas
Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
Annwyl Ioan

**Par: Canolfan Noddfa yn ward Deiniolen a'r Llyfrgell**

Ymhellach i'ch ymweliad â Deiniolen yn ddiweddar, hoffwn dynnu eich sylw at faterion sydd yn peri pryder i mi a'm hetholwyr yn yr ardal hon.

Rwyf wedi gwneud ymholiadau diweddar ynglŷn â hanes Canolfan Noddfa - y sefydliad ar gyfer pobl ddigartref yn fy ward i. Fe fyddwch yn ymwybodol bod y Ganolfan hon wedi achosi nifer o broblemau yn y pentref dros y blynyddoedd, ers cychwyn ei defnydd fel lloches i ferched a oedd yn dioddef o gamdriniaeth yn y cartref. Fe newidiwyd pwrpas y Ganolfan dros nos heb ymgynghori â'r gymuned, i sefydliad digartref cyffredinol. Fe fyddwch hefyd yn ymwybodol nad yw'r gymuned hon yn fodlon o gwbl gyda lleoliad y Ganolfan yn Neiniolen ers 1974 - mae'r pentref wedi gorfod rhoi i fyny a'r Ganolfan ers dros 40 o flynyddoedd. Pentref bach yw Deiniolen ac mae cael bobl o bell ac agos gyda nifer o broblemau yn cynnwys cyffuriau, alcohol ayyb yn amharu yn fawr ar y bobl leol. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r unigolion yma sydd angen cael rhywle i fyw, fy nadl i yw bod 40 o flynyddoedd yn ddigon i unrhyw gymuned a byddai'n deg darganfod safle arall i'r Ganolfan hon oddi fewn i Wynedd.

Deallaf fod Cyngor Gwynedd, dros y chwe blynedd diwethaf, wedi gwario dros £100mil ar gynnal a chadw ac addasu adeilad Noddfa - mae hyn yn swm anferthol! Hoffwn wybod faint sydd wedi ei wario ar y Ganolfan dros y 40 mlynedd ers pan mae mewn bodolaeth a hefyd beth yw'r refeniw mae Gwynedd yn dderbyn drwy gynnal y ganolfan fel lle i bobl ddigartref aros ynddo? Rwyf hefyd mewn cysylltiad â Susan Griffith, Rheolwr Digartrefedd. i geisio cael y manylion yma.

Ar ddiwedd y dydd, fel y gwelaf fi, mae Deiniolen wedi gwneud ffafr fawr i Wynedd drwy dderbyn a chydfyw â'r Ganolfan hon dros y 40 mlynedd diwethaf. Nid hawdd yw hi i bentref bychan difreintiedig ddelio â'r problemau mae'r Ganolfan wedi'i achosi dros y blynyddoedd. Fe wyddoch chi, fel fi, nad oes unrhyw gymuned arall yn yr ardal yn fodlon cael canolfan o'r fath hon ger eu cartrefi nhw. Nid oes budd o gwbl i'n pentref yn cael y Ganolfan yma, dim ond problem ar ôl problem.

Fel y dywedais eisoes, pentref difreintiedig iawn yw Deiniolen yn anffodus, ac er bod llawer o waith wedi ei wneud i geisio gwella'r ward, mae problemau mawr yn parhau i fodoli yno. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi colli Canolfan Dinorwig, mae'r toiledau cyhoeddus wedi cau a nawr mae'r llyfrgell o dan fygythiad. Mae'r llyfrgell yn adnodd heb ei ail - mae pobl yn gallu benthyg llyfrau a dvd's, defnyddio cyfrifiaduron (er bod rhai yn meddwl bod gan bob tŷ gyfrifiadur - nid yw hyn yn wir yn Neiniolen) gallu cynnal cyfarfodydd yno ac mae'n cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.

Mae cadw llyfrgell Deiniolen fel y mae hi yn bwysig iawn - mae'n werthfawr iawn i'r pentref a byddai ei chadw ar agor yn mynd rhyw ffordd i berswadio'r etholwyr bod ots gan Gyngor Gwynedd am eu sefyllfa a'u bod yn sylweddoli pa mor anodd yw byw gyda Chanolfan Noddfa mewn pentref mor fychan.

Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at glywed gennych a derbyn eich sylwadau.

Yn gywir iawn
Elfed Williams
Cyng Elfed W Williams
cc Cyng Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor






## *Parhad* DEINIOLEN

# "Dwyn O'r Dyfodol I Dalu Am Heddiw"

Nid fy ngeiriau i yw yr uchod ond geiriau a ymddangosodd yn erthygl dydd Sadwrn Lleucu Siencyn ym mhapur y Western Mail yn ystod mis Ionawr. Y pwnc dan sylw oedd LLYFRGELLOEDD. Dyfynnu geiriau yr awdur Neil Gaiman a wnaeth Lleucu (sy'n gweithio yn Llenyddiaeth Cymru) a hynny o ddarlith a draddododd yr awdur am bwysigrwydd darllen sy'n hybu llythrennedd ac sy'n medru newid bywyd. Ynglŷn â Llyfrgelloedd sydd dan fygythiad, medd Neil Gaiman, - "mae llyfrgelloedd yn gatiau i'r dyfodol ... trist yw canfod fod Awdurdodau Lleol yn cymryd y cyfle i gau llyfrgelloedd fel ffordd hawdd i achub arian, heb sylweddoli eu bod yn llythrennol yn dwyn o'r dyfodol i dalu am heddiw ... maent yn cau y gatiau a ddylai fod yn agored". Roedd gan Lleucu Siencyn ei hun hefyd ei barn bendant am y bygythiad i Lyfrgelloedd - "Effeithia dyfodol llyfrgelloedd bawb ohonom, ond yn bennaf y genhedlaeth nesaf ... dylai pawb sy'n meddwl fod cymdeithas lythrennog yn bwysig fod yn pryderu am bob llyfrgell sydd o dan fygythiad ... llyfrgelloedd yw un o'r lleoedd mwyaf hanfodol i'n cymdeithas wareiddiedig."

### CANMOL YN WIR

Yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ddiwethaf y clywyd y byddai ymgynghoriad yn digwydd i ddyfodol llyfrgelloedd yn Nyffryn Peris, Ogwen a Nantlle. Roedd hyn braidd yn sioc oherwydd, yn y wasg ar 19eg o Ragfyr, ymddangosodd hyn o enau Dirprwy Weinidog Diwylliant Cynulliad Cymru, sef Ken Skates (Y Blaid Lafur) ym mhapur Y Cymro -"Rwy'n falch o weld y cynnydd yn nifer y benthycwyr gweithredol yng Nghymru a'r cynnydd yn y benthyciadau electronig, mae llyfrgelloedd yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl trwy wella llythrennedd, datblygu sgiliau digidol a darparu mynediad at wybodaeth - mae hyn o gymorth i fynd i'r afael â thlodi a chefnogi iechyd a lles. Mae rhain yn flaenoriaethau pwysig i bawb ohonom."

Ar y cyntaf o Ionawr, wele hyn yn y C.& Denbigh o enau y Cynghorydd Ioan Thomas (Plaid Cymru), aelod Cabinet Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb am lyfrgelloedd - "Mae benthyg llyfrau yng Ngwynedd wedi cynyddu 5% ac mae llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth i fywyd pobl trwy wella llythrennedd, datblygu sgiliau digidol, darparu mynediad i wybodaeth sydd yn help i daclo tlodi a chefnogi iechyd a lles pawb. Mae rhain yn flaenoriaethau pwysig i bawb ohonom.' Geiriau calonogol oddi wrth y Dirprwy Weinidog Diwylliant ym Mae Caerdydd a'r Cynghorydd yn y Cabinet yn swyddfeydd y Sir.


### LLEOL

Yn naturiol, soniaf am ym yr hyn sydd wedi digwydd parthed Llyfrgell Deiniolen. Adroddais yn gyntaf i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen yn eu cyfarfod ar y 6ed o Ionawr. Wyth awr yr wythnos wedi ei rannu i ddyddiau Llun, Mercher a Gwener, mewn un ystafell glyd gyda'i faes parcio hwylus yn Nhŷ Elidir, yw hanes y llyfrgell. Ymysg y ddarpariaeth yno ceir llyfrau cyfeiriol, cryno ddisgiau a dau gyfrifiadur ac mae disgyblion Ysgol Brynrefail yn defnyddio'r meddalwedd a'r band llydan i wneud gwaith ysgol. Nid oes band eang mewn llawer o gartrefi; gwneir defnydd o'r adnodd hefyd gan Ysgol Gwaun Gynfi a'r Meithrin a threfnir sawl gweithgaredd i'r plant yn ystod gwyliau'r Ysgol a llawer mwy. Carys Hamer, yn enedigol o'r pentref, sydd yno ac mae'n rhoi cymorth arbennig i bawb. Yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned yn Ionawr, anfonwyd at y Sir a'r Cynulliad i fynegi ein hanfodlonrwydd ynglŷn ag unrhyw fygythiad i'r llyfrgell a bod y tri Cynghorydd Sirol sydd ar y Cyngor Cymuned yn cysylltu â'r Sir i fynegi pryder hefyd.

Trefnwyd i'r Cynghorydd Elfed Williams wahodd y Cynghorydd Ioan Thomas i Lyfrgell Deiniolen ar fore Gwener 23ain Ionawr. Daeth criw da o bob oedran i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth a chyfraniadau adeiladol. Yn bresennol hefyd yr oedd Cadeirydd y Cyngor Cymuned, sef Richard Lloyd Jones, a'r Cynghorydd Lleol Elfed Williams a chynrychiolaeth o Menter Fachwen sydd bellach wedi cartrefu yn Nhŷ Elidir. Mynegodd Ioan Thomas y byddai Ymgynghoriad yn digwydd ac y byddai'r Sir yn penderfynu y pnawn hwnnw pwy fyddai'n gyfrifol am hyn. Pwysleisiwyd yn gryf y dylai'r ymgynghoriad arfaethedig fod yn un trwyadl a bod y gymuned a'r Cyngor Cymuned yn rhan llawn o hyn. Soniwyd am bwysigrwydd y llyfrgell yn Neiniolen ac i'r pentrefi cyfagos; caiff llyfrau eu benthyca oddi yno ar ran pobl eraill sy'n methu ymweld â'r lle. Pwysleisiwyd y dylai Adran Llyfrgelloedd y Sir fasnachu'r wybodaeth yn eang am yr hyn a geir yn y llyfrgell. Mae Deiniolen, yn ôl ffigyrau swyddogol sydd newydd ddod i law, bellach yn "gymuned o angen" a byddai colli gwasanaeth y llyfrgell fel y collwyd adnoddau eraill yn ergyd hynod drom. Wrth ysgrifennu hyn o lith, disgwyliwn am wybodaeth holl gostau'r llyfrgell yn y pentref a hefyd mwy o wybodaeth am yr Ymgynghoriad.

Ymunwn oll i sicrhau parhad y llyfrgell yn Neiniolen a cheir gwybodaeth am y camau nesaf. Teimlaf yn gryf na ddylid cau adnoddau nad yw'n gwneud elw ariannol, oherwydd (yn achos pob llyfrgell) nid dyna pam y crewyd hwy yn y lle cyntaf ond yn hytrach i gyflawni rhywbeth gwahanol, ac mae'r gwahanol hwnnw yn amhrisiadwy.

Idris Thomas









## Un funud fach ...

# TOMMY A DEWI

'Ydych chi'n cofio'r gêm bêl-droed rhwng Lerpwl ac Everton ym Mharc Goodison yn 1967?' Dyna a ofynnai un gohebydd i bobl ar y stryd yn Lerpwl yn ddiweddar cyn y gêm ddiweddaraf rhwng dau dîm y ddinas. Cafodd gryn syndod pan atebodd un gŵr mai fo oedd yn y gôl i dîm Lerpwl yn y gêm honno. Tommy Lawrence oedd o, ac fe chwaraeodd yr Albanwr hwn bron i 400 o gemau dros Lerpwl. Ond doedd gan y gohebydd mo'r syniad lleiaf pwy oedd o. O bosibl ei fod yn rhy ifanc i gofio peldroedwyr y chwedegau. Ond roedd un o enwogion clwb Lerpwl yn sefyll o'i flaen, ac yntau heb ei nabod.

Does beryg i'r un gohebydd a fydd yn holi pobl am ein nawddsant eleni daro arno ar ganol stryd. Ond bydd llawer o sôn am Dewi Sant dros y dyddiau nesaf. Mewn cinio a chyngerdd, caiff ei gofio a'i ganmol am y gwyrthiau a briodolir iddo. Caiff ei eiriau eu dyfynnu a'u defnyddio i'n hannog i wneud 'y pethau bychain' y soniai amdanynt. Caiff ei gyflwyno fel noddwr ein cenedl a'n hiaith a'n diwylliant, a'i ddyrchafu'n bencampwr y bywyd syml a'r gweithredoedd bychain. Ond os mai dyna'n unig a ddywedir, bydd Dewi mor ddieithr â Tommy. Byddwn yn sefyll o'i flaen ac yn edrych arno heb sylweddoli pwy a beth yn union oedd o. Oherwydd nid dyn gwyrthiau na gweithredoedd oedd Dewi a'r seintiau yn gyntaf, ond dyn y Ffydd a'r Gair; a phrif nod ei fywyd oedd cyhoeddi'r newydd da am Iesu Grist i'w genhedlaeth. Dyn yr Efengyl oedd Dewi, ac os na chofiwn hynny, dyn dieithr fydd o i ni; dyn na fyddwn wir wedi ei adnabod, waeth faint y soniwn amdano na faint o sylw a roddwn iddo.

Un peth yw gohebydd yn methu ag adnabod peldroediwr, a pheth arall yw cenedl yn methu ag adnabod un o weision yr Efengyl. Ond peth arall wedyn oedd pobl yn methu ag adnabod Iesu Grist, Fab Duw. 'Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono. Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono (Ioan 1:10-11). Y cwbl a welai rhai pobl wrth weld Iesu yn eu plith oedd mab y saer o Nasareth. Gwelai eraill athro da, ac eraill ddyn a fedrai wneud gwyrthiau o bob math. Ond ychydig a welodd mai hwn oedd gwir Fab Duw a'r Meseia yr oedd Duw yn ei anfon i'r byd i fyw ac i farw dros gyfeillion a gelynion. Fe ddaeth ei ddisgyblion a'i ddilynwyr ffyddlon i weld hynny. Ac ar Ddydd Gŵyl Ddewi, diolchwn fod Dewi Sant a'i debyg hefyd wedi gweld hynny ac wedi cyhoeddi'r Crist hwn yn Waredwr ac Arglwydd.

JOHN PRITCHARD

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Ionawr

Coed Nadolig

Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau fod coeden Nadolig yng Nghwm y Glo a Llanrug y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd hefyd anfon llythyr o ddiolch ar ran y Cyngor i Dylan Griffith am gael defnyddio'r safle i arddangos y goeden yn Llanrug ac i Mr & Mrs Hughes am gyfrannu'r goeden.

Cae Chwarae Pwll Moelyn

Adroddwyd nad yw'r gwaith angenrheidiol byth wedi ei gwblhau a bod yr enw "Glan Moelwyn" wedi ei roi ar y giat yn lle'r enw cywir sef "Pwll Moelyn".

Penderfynwyd anfon llythyr tuag at Tai Gogledd Cymru ynglŷn â hyn.

Cae Chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd fod arian grant wedi'i dderbyn i ddarparu offer i gae chwarae Nant y Glyn.

Penderfynwyd archebu offer newydd erbyn y Gwanwyn.

Problemau Baw Cŵn

Adroddwyd fod aelodau wedi derbyn nifer sylweddol o gwynion gan drigolion am berchenogion cŵn ddim yn codi baw eu ci a'r roi yn y biniau neu fynd ag ef gartref. Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â'r Swyddog priodol ar fwy nag un achlysur ac wedi cyfeirio ymholiad drwy Siop Gwynedd ond byth wedi derbyn ymateb.

Penderfynwyd cwyno am y diffyg ymateb ac ymestyn gwahoddiad i'r Swyddog Cŵn fynychu cyfarfod o'r Cyngor. Hefyd i drafod gyda'r Prifathro y syniad o gael cystadleuaeth i blant Ysgol Gynradd Llanrug greu poster i annog cerddwyr cŵn godi'r baw, gyda gwobr am y poster gorau.

Gwefan Cyngor Cymuned Llanrug

Adroddwyd fod y Clerc wedi paratoi adroddiad ar yr uchod i'w ddosbarthu i'r aelodau. Oherwydd y gwaith ac er mwyn i'r aelodau allu craffu'r adroddiad, penderfynwyd cael cyfarfod arbennig i drafod hyn.

Cofrestr Cwynion

Penderfynwyd sefydlu taflen i gofnodi cwynion er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu anghofio.

Parcio Talybont

Adroddwyd fod cerbyd yn parcio ar y gwair o flaen ystad Talybont a bod aelod o'r cyhoedd wedi syrthio drwy faglu yn y rhychau. Penderfynwyd cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i edrych a oes posibilrwydd rhoi rhwystrau ar y gwair i nadu ceir rhag parcio yno.

Ffordd Bryngwyn

Yn dilyn cwyn a wnaethpwyd gan aelodau am gyflwr y ffordd uchod, darllenwyd ymateb y Swyddog o Gyngor Gwynedd. Mynegwyd pryder fod rhew yn ei gwneud yn berygl i ddefnyddwyr ac nad yw'n cael ei defnyddio gan feicwyr bellach oherwydd ei chyflwr. Penderfynwyd cysylltu'n ôl â'r Swyddog yn mynegi fod y Cyngor yn anhapus iawn gyda chyflwr y ffordd am fod dŵr yn casglu ar yr wyneb, sydd yn ei gwneud yn beryglus.

Cofeb i gofio Ffrwydriad Cwm y Glo

Adroddwyd fod cais wedi dod i law yn holi am y posibilrwydd QR côd ar y plac ger "y Fricsan" fyddai'n galluogi defnyddwyr ffôn symudol neu dabled gael y stori am y digwyddiad. Disgwylir mwy o wybodaeth ynglŷn â'r costau ayyb.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## *Cyngor Cymuned Llanberis*

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth yr 20fed o Ionawr 2015 am 7 yr hwyr.
PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp,.
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Eurig Druce, Trystan Thomas.
DATGAN BUDDIANT:
BD (ddim am drafod cais cynllunio Llyn Padarn)
CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 16eg o Ragfyr, 2014 fel rhai cywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.
MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Coed: Adroddwyd fod Cartrefi Cymunedol wedi torri'r coed.
2. Adwy Ffordd Haearn: Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.
3. Y We: Ar y gweill.
4. Cysgodfan Bws Newydd: Cafwyd adroddiad manwl gan y Clerc am ddau ymweliad safle gydag un o swyddogion (ILlE) Cyngor Gwynedd (CG). Roedd y safle'n addas ond roedd angen prynu cysgodfan 'Chiltern' o liw gwyrdd gan mai dyna oedd CG yn ei argymell ar draws y sir ac roedd angen defnyddio ymgymerwr cydnabyddedig y Cyngor hefyd i wneud y gwaith. Roedd yntau wedi ymweld â'r safle.
Argymhellwyd cysylltu â'r trigolion lleol. Gwnaed hynny ond cafwyd gwrthwynebiad chwyrn gan berchennog tŷ cyfagos. Prif wrthwynebiad y cymydog oedd sbwriel yn cael ei daflu dros y wal i'w ardd, bod siop Londis bellach yn gwerthu 'sgod a sglods' ac y byddai hynny yn ychwanegu at y sbwriel, yn enwedig pe bai pobl yn bwyta'r bwyd yn y gysgodfan.
Ar sail y gwrthwynebiad aeth y Clerc ati i holi CG a fyddai modd symud y lloches i gyfeiriad y dwyrain a'i osod rhwng y ddau fwlch sy'n arwain i'r toiledau cyhoeddus a Maes Padarn. Mae CG yn ystyried hynny.
Byddai'r gost yn uwch o wneud hynny, yn enwedig pe bai CG yn mynnu bod angen codi rhai modfeddi ar lefel y palmant. Trafodwyd y mater yn fanwl a phenderfynwyd holi a fyddai modd i'r Cyngor hwn anwybyddu y gwrthwynebiad a bwrw 'mlaen i osod y gysgodfan wrth yr arhosfan presennol gan mai dyna fyddai orau, yn enwedig o ran cysgod i'r teithwyr.
5. Ffens Parc Bach: Y gwaith wedi ei gwblhau yn gynnar yn mis Ionawr, mae'r safle yn ddiogel ond mae angen tacluso a brwsio.
6. A4086: Mae'r gwaith o osod palmant newydd ar ochr ogleddol y ffordd wedi dechrau. Mae'r gwaith yma a gwaith ail wynebu'r ffordd i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth yn ôl CG. (13 wythnos)
7. Ceisiadau Cynllunio: Ar ôl ymholiad yn y cyfarfod blaenorol cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo ymchwilio i nifer o ddatblygiadau cynllunio diweddar yn Llanberis, a chael ym mhob achos, [Pyllau Dŵr, Waterfall View a Summer Hill] fod y datblygiadau wedi derbyn caniatâd cynllunio oddi wrth yr awdurdod priodol.
MATERION ERAILL:
1. Cysgodfeydd Bws: Dôl y Goeden: Cafwyd adroddiad am ddifrod tywydd i lochesi bws, Dôl y Goeden, Llanberis. Mae peth ansicrwydd pwy sy'n gyfrifol. Nid y Cyngor hwn yn sicr.
2.Defaid: Gofynnwyd am gael clirio'r defaid, mae'r sefyllfa'n bur ddrwg.
GOHEBIAETH:
1. Cyngor Gwynedd: Cau Ffordd dros dro Arfaethedig – 16eg o Fai rhwng 08.30 a 12.00:
Llythyr o'r Adran Reoleiddio yn ymgynghori ynglŷn â chau ffordd A4086 rhwng Nantperis a Phenygwryd ar gyfer Triathlon Slateman (Llanc y Llechi) 2015. Roedd nifer yn gwrthwynebu hyn, mae na deimlad gan nifer fod ffyrdd yr ardal yn cael eu cau'n rhy aml i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, yn enwedig rhai masnachol. Nodwyd mai dydd Sadwrn oedd y diwrnod dan sylw a bod gofyn am gau'r ffordd yma am dair awr a hanner yn afresymol. Byddai'n effeithio ar bobl leol, ymwelwyr, y bws 'Sherpa' a busnesau yng Ngorffwysfa a Phenygwryd. Penderfynwyd anfon nodyn at CG i'r perwyl hwnnw.
2. SLCC (Cymdeithas y Clercod):
Gwahoddiad gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i fynychu cwrs hyfforddi ar waith cyllid ac archwilio y Cyngor.
3.CG: Gorchymyn Gwahardd Parcio:
Copi o rybudd cyhoeddus i wahardd parcio mewn nifer o gymunedau yn cynnwys Llanberis. Y bwriad yw gwahardd parcio ar ffordd A4086 ar ddwy ochr y ffordd o ganol ei chyffordd a'r ffordd dosbarth 3 heibio Rhes Fictoria mewn cyfeiriad de dwyreiniol am bellter o oddeutu 235 metr ac yna ar ochr ddeheuol y ffordd yn unig hyd at bwynt o ddeutu 20 metr i'r gogledd-ddwyrain o Gapel Jerwsalem, Pentre Castell. Croesawu yn fawr.
4. CG – Gorchymyn Rheoli Trafnidiaeth Dros Dro – A4086:
Cyfyngiad o 30mya ar hyd y ffordd o Gallt y Glyn i Graig yr Undeb, tua 1,700 metr. O'r 6ed o Chwefror am tua 13 wythnos yn ystod y gwaith ar y ffordd. Cytuno.
5. Cymru'n Cofio – 1914-1918:
Gwahoddiad i ddiwrnod partneriaeth yn Llandudno i glywed am waith sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio ar gynlluniau cofio'r Rhyfel Mawr. Neb ar gael, byr-rybudd.
6. CG – Gwasanaeth Cyfreithiol:
Gofyn barn a fyddai gan aelodau Cynghorau Cymuned ddiddordeb mewn cyfarfod hyfforddi ar Y Cod Ymddygiad i Aelodau. Cytuno y byddai
7. CG/Cyngor Sir Ynys Môn:
Copi o'r Crynodeb Gweithredol, Cynllun Adnau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd a Môn (2011 – 2026). Derbyn.
8. Grŵp Gweithred Cymuned Cwm:
Llythyr oddi wrth Aled Owen yn nodi fod gwaith creu a datblygu Llwybr Llechi Eryri yn mynd yn ei flaen. Y bwriad yw dechrau ym Methesda a gorffen ym Mhorth Penrhyn gan ymweld â phentrefi yr ardaloedd llechi. Byddai'r daith yn daith wythnos o'i chwblhau mewn un cynnig ac o hwb fe honnir i economi sawl pentref ac ardal. Holir am gefnogaeth a chymorth ariannol. Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd.
CYNLLUNIO:
1. Cyngor Gwynedd:
• C15/0022/15/LL – gwaith peirianyddol i greu llithrfa – rhan o Llyn Padarn, ger Ystad Ddiwydiannol y Glyn, Llanberis LL55 4EL – Dim gwrthwynebiad.
• 2. APCE:
• NP3/15/67H – codi caban barbaciw pren – Penceunant Isaf, Llanberis, LL55 4UW – Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond yn teimlo fod dyluniad y caban yn anaddas.
PRAESEPT:
Penderfynwyd ar braesebiad o £19,000 ar gyfer 2015 – 2016, fel eleni.
Gosodir cyllideb yn mis Mawrth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a gofynnwyd am syniadau a chynlluniau erbyn hynny er mwyn blaenoriaethu a neilltuo arian wrth baratoi'r Gyllideb newydd.
LLWYBRAU A'R FYNWENT
a) Y Fynwent:
Ar sail trafodaeth gynharach penderfynwyd ychwanegu at Reolau'r Fynwent a nodi ynddynt mai 3 troedfedd wrth ddwy ddylai fod yn fesuriadau ar gyfer y garreg sy'n waelod i'r garreg goffa. Penderfynwyd cadw at y rheol 2' 6" fel uchder y garreg a nodi yn ychwanegol mai un enw yn unig (os y dymunir) fydd yn cael ei ganiatau ar gefn y garreg; e.e. John neu John Jones.
Awgrymwyd y dylid cyfieithu Rheolau'r Fynwent. Adroddwyd fod Emlyn Baylis yn gwybod am laddwr tyrchod os cyfyd problem tyrchod daear ei ben eto yn y Fynwent. Mae Iola Owen am weld arwydd dim parcio ar y glaswellt o flaen y giât. Er mwyn adolygu'n llawn Reolau'r Fynwent gofynnwyd i'r Clerc anfon copi i'r aelodau.
Adolygwyd prisiau claddu a chodi meini coffa. Gan mai blwyddyn sydd ers eu hadolygu, penderfynwyd eu cadw fel y maent am flwyddyn arall.
b) Llwybrau:
Unwaith eto cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd modd dod o hyd i'r llwybr sy'n mynd heibio Pyllau Dŵr. Penderfynwyd anfon eto at CG i ofyn am gymorth. Yn y gorffennol dywedwyd fod prinder staff yn yr Adran yn golygu fod yn rhaid blaenoriaethu. Penderfynwyd fod y llwybr yma yn un pwysig i'r Gymuned hon.
c) Meinciau:
Diweddarwyd rhestr meinciau ac eiddo arall y Cyngor.
ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:
a) Partneriaeth Llanberis:
Cafwyd adroddiad (gan EB) am gyflwr Llyn Padarn ac am yr ymdrech i gael busnesau i ddefnyddio sebonau ecogaredig / 'ffeind i'r amgylchedd'. Honnwyd yn y cyfarfod fod y Llyn yn un o'r llynnoedd glanaf yng Nghymru. Mae'n wir fod gwario mawr wedi bod i sicrhau nad oes cemegau a charthion yn mynd i'r llyn, ond mae glawogydd trwm yn dal yn broblem.
Mae peth ansicrwydd mae'n ymddangos ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Ymwelwyr (TIC) sydd yn Mynydd Gwefru ar hyn o bryd.
b) Fforwm Padarn:
Roedd y cynrychiolydd wedi methu mynychu'r cyfarfod. Gofynnwyd iddi adael i'r Clerc wybod os digwydd hynny eto.

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Cofnodion Cyfarfod y 3ydd o Chwefror 2015.

Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll Jones.

Cywiriadau i gofnodion 6ed Ionawr

Cae Pêl Droed Bethel – Gwnaed llawer o awgrymiadau ond awgrymodd Mr. Geraint Elis sut y gellir cefnogi cais 'Cae Chwarae Bethel' - gellid cynnig grant cyfwerth a rhoddion blwyddyn mudiadau Bethel sef £1,300 ac os bydd y datblygiad yn cael ei wireddu gellid ail ystyried y cyfraniad bryd hynny.

Awgrymwyd hefyd y byddai yn fwy priodol i'r cais gael ei wneud yn enw "Clwb Chwaraeon Bethel" fyddai yn cynrychioli'r holl ddefnyddwyr.

Yn lle:

Gwnaed llawer o awgrymiadau ond dywedodd Geraint Elis y gellid ystyried y cais fel unig gais Bethel am un flwyddyn a chyfuno holl roddion mudiadau Bethel, sef £1,300 yn 2014, fel cyfraniad y Cyngor.

Derbyniwyd y cofnodion, fel arall, yn rhai cywir

Materion o'r cofnodion.

Derbyniwyd pris am sefydlu gwefan. Yn dilyn trafodaeth helaeth, awgrymodd y cadeirydd gael 3 aelod o'r cyngor i edrych ar beth yn union yw sydd ei angen wrth sefydlu gwefan i'r cyngor, cyn symud ymlaen. Gofynnodd Hefin Williams a fuasai yn bosib cael .cym yn hytrach na .com.

Gan nad oes ateb wedi ei dderbyn yn swyddogol gan CCG ynglŷn â goleuadau Hafod Oleu, awgrymwyd ail lythyru yn gofyn am ateb i lythyr mis Ionawr cyn gynted a bod modd.

Pleser yw cael cyhoeddi fod y blwch postio Y Waun wedi ei osod yn ôl.

Gohebiaethau a materion eraill

Yn dilyn trafodaeth ar fater parcio ffordd Brynhyfryd, penderfynwyd ateb y cais a gan awgrymu gwahardd parcio ochor Bodawen a thynnu y palmant cornel ochor Bodawen o'r lôn i hwyluso y troad ar y gornel i fynedfa lôn Rhos Wian.

Derbyniwyd llythyr ynglŷn â'r cynllun cynllunio yma gyda mapiau i bob pentref. Penderfynwyd gyrru linc o'r ddogfen i bawb gael edrych a dod â sylwadau i'r cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd llythyr gan Llechi Eryri gyda disc a map yn dangos y llwybr sydd yn mynd trwy ardal Cymuned Llanddeiniolen.

Cynllunio

Newid defnydd i greu 2 safle 'cyrraedd yn hwyr,' gosod 13 uned teithio ychwanegol o fewn y safle bresennol, newid 6 safle gwersylla, ynghyd a gwelliannau tirweddu ac amgylcheddol y safle.- Rhyd -y-Galen Caravan Park, Bethel

Gorchymyn Diogelu Coed - Tir ger Ty'n Rhos, Bethel

Dymchwel adeilad presennol, codi tŷ deulawr newydd, addasu mynedfa bresennol er mwyn creu mynedfa gerbydol a ffordd fynedfa newydd, creu llecynnau parcio, cynnal addasiad i waliau ffin bresennol a gosod offer trin preifat- Minffordd, Penis'arwaun

Quarry Battery, Glyn Rhonwy Llanberis, Cais yn gofyn am sylwebaeth ar effeithiau amgylcheddol drwy'r datblygiad. Penderfynu llythyru yn gofyn am ystyried efallai effaith o lygredd yn Llyn Padarn.

Llyfrgelloedd

Adroddodd Idris Thomas bod cyfeillion a chynghorwyr cyngor cymuned wedi cyfarfod ar y 23ain o Ionawr. Cafwyd trafodaethau a chyfraniadau adeiladol. Dywedwyd y bydd ymgynghoriad a mynegwyd bod Cyngor Cymuned yn mynd i fod yn rhan llawn o hyn. Soniwyd yn y cyfarfod am bwysigrwydd y Llyfrgell yn Neiniolen i'r pentrefi cyfagos, yr ysgol a'r ysgol feithrin, ynghyd â'r benthyciadau a wneir oddi yno o lyfrau i drigolion y fro.

Y cam nesaf yw cyfarfod Aelodau'r Ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Ioan Tomos ddarparu gwybodaeth am gostau y llyfrgell erbyn cyfarfod y Cyngor Gymuned ar Chwefror 3ydd. Yn anffodus, nid ydym wedi derbyn yr un gair ganddo ynglŷn â hyn. Felly doedd dim posib trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod.

Awgrymodd Idris Thomas ein bod yn llythyru y Cynghorydd Ioan Tomos yn gofyn

1 Am wybodaeth y gost o redeg y llyfrgell

2 Pwy yw'r Ymgynghorwyr?

3 Ei bod yn hollol bwysig bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn drwyadl a chyflawn.

- O gwmpas y bwrdd:

Brynrefail – Carolyn Roberts yn mynegi nad yw y tyllau byth wedi eu llenwi na'r lôn ei hailwynebu yn y pentref. Dal i ddisgwyl ateb gan y priffyrdd i'n llythyr mis diwethaf.

Hefin Williams – Mynegodd nad ydym byth wedi trafod 'Her Gwynedd'. Pwysleisiodd y cadeirydd bydd y mater yn cael blaenoriaeth yn y cyfarfod nesaf.

Deiniolen – Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr Ffordd Deiniol / Stryd Newydd yn dilyn cyfnod o Eira trwm a nosweithiau rhewllyd yn dilyn. Gan nad yw'r lôn yn cael ei defnyddio fel ffordd bysus, nid yw'r ffordd yn cael ei graeanu. O ystyried bod yr unig siop yn y pentref wedi ei lleoli ar y stryd yma, ynghyd â'r feddygfa, y fynwent, a cwt band, lle yn digwydd bod roedd yna 35 o blant yn mynychu ymarfer wythnosol. Llythyr i'r priffyrdd yn datgan ein pryderon.

Richard Ll. Jones. Yn dilyn hysbyseb gan CCG o swyddi Cyfarwyddwr Adnoddau a Chyfarwyddwr Asedau ac Is-adeiladau, a'u penderfyniad yn yr hysbyseb i hepgor medru'r Gymraeg fel cymhwyster hanfodol, cynhaliwyd rali yng Nghaernarfon. Awgrymodd ein bod yn gyrru llythyr i CCG yn gwrthwynebu hyn gan eu bod yn torri eu polisi iaith eu hunain.

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts ▸ 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

# Patagonia'n Galw

Mae'r misoedd nesaf yn mynd i fod yn rhai heriol, prysur a gwerthfawr iawn i Steven Williams, 18 oed o Lanberis. Mae Steven, sydd yn astudio Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Menai Bangor, yn un o 17 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru sydd wedi eu dewis ar gyfer y sioe 'Mimosa', sydd yn brosiect ar y cyd rhwng yr Urdd a Clwyd Theatr Cymru; Theatr ar Gyfer Pobl Ifanc.

Bydd yn gweithio ar gynhyrchiad gyda phump o bobl ifanc o Batagonia a phedwar actor proffesiynol, gan fynd â'r cynhyrchiad ar daith yng Nghymru a Phatagonia dros yr haf.

Bydd y cynhyrchiad yn dilyn hanes y Cymry cyntaf deithiodd i Batagonia i gychwyn bywyd newydd 150 o flynyddoedd yn ôl. Bydd yn cael ei lwyfannu am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau gyda'r criw yn teithio allan i Batagonia yr wythnos ganlynol i fynd â'r cynhyrchiad ar daith yn y Wladfa am bythefnos.

Yn ôl Steven "Mae hwn yn gyfle gwych – dwi'n astudio celfyddydau perfformio yng Ngholeg Menai ar hyn o bryd felly mae'r cyfle yma yn ddelfrydol – cael bod yn rhan o gynhyrchiad cenedlaethol a theithio i ochr arall y byd i berfformio."

Mae cyfnod prysur o flaen Steven gan fod angen trefnu nifer o weithgareddau codi arian yn lleol cyn mynd i wersyll preswyl yng Nglan-llyn ddiwedd Gorffennaf i ymarfer.

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu a gobeithio bydd digon o drigolion ardal Eco'r Wyddfa yn cefnogi ac yn sicrhau llwyddiant i'r bachgen talentog yma. Cychwyn taith i ben draw'r byd a, phwy a ?yr, cychwyn taith i fod yn actor llwyddiannus ag enwog.

Byddai Steven yn falch iawn o gael unrhyw gymorth i gasglu arian, felly oes gan unrhyw un syniad, oriau i helpu neu yn dymuno rhoi cyfraniad cysylltwch â Steven neu Shirley Williams ar 01286 872376.

Bydd y sioe i'w gweld yn Theatr y Maes Eisteddfod Genedlaethol Meifod a'r Gororau a hefyd mewn lleoliad yng Nghaerdydd.

(((Manylion pellach oddi wrth: Steven Williams, 22, Maes Padarn, Llanberis)))

**Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillwyr y Bêl Bonws am fis Ionawr oedd Mrs. Helen Morris a Mrs. Nan Owen.

**Diolchiadau** Dymuna Delyth Hughes, Llys Elen, Station Road, Llanrug, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

**Marwolaeth** Ar Ragfyr y 31ain 2014, yn Aberhonddu (Brecon), bu farw Menna Byrne (Jones gynt) yn 94 mlwydd oed. 'Roedd yn fwy cyfarwydd i drigolion hŷn y pentref fel Menna Bodandrag. Fe'i magwyd yn Bryn Golau, Stryd Yankee ac, wedi iddi briodi bu'n byw yn Glasfryn, drws nesaf i Pen Y Bryn, cyn i'r teulu adael y pentref yn nechrau'r 50au. Er iddi fyw yn agos, a gyda'i merch, ger Aberhonddu ers rhai blynyddoedd bellach, 'roedd Menna, tan yn ddiweddar, wrth ei bodd yn ymweld, ac aros, yn y pentref.

**Cymdeithas Undebol** Cafwyd noson gartrefol braf yng nghwmni Mr Keith Jones, Ymgynghorydd Amgylcheddol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar nos Fawrth, 10 Chwefror.

Bu'n sôn ac yn arddangos lluniau o'r gwaith maent yn ei wneud mewn adeiladau ar mwyn arbed ynni a'i ddefnyddio yn fwy addas ar gyfer gwresogi a goleuo, a chanfod ffyrdd mwy amgylcheddol gyfeillgar i wneud hyn.

Soniodd am declyn sydd ar gael i'w roi yn ein tai i weld faint o ynni rydym yn ei wastraffu wrth adael ein teledu, cyfrifiaduron, offer cegin ayyb ar 'sefyll dros dro' (stand-by).

Hefyd rhoddodd gynghorion da i ni i arbed ynni yn ein tai: cau'r drysau, llenni trwchus ar y ffenestri a llawer awgrym arall fyddai o fudd i ni arbed arian hefyd.

Diolch o galon iddo am ddod atom yn ei brysurdeb. Roedd yn cychwyn ar daith ar ôl ein gadael ni ac yn aros dros nos mewn gwesty hanner ffordd i Ardal y Llynnoedd ar gyfer cyfarfod y bore canlynol. Diolch yn fawr iawn am eich ymroddiad.

Llywyddwyd y noson gan Y Parchedig John Pritchard. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Robin Jones a pharatowyd paned a bisged gan rai o'r merched ar y diwedd.

Bydd y cyfarfod nesaf yng ngwesty Dolbadarn am 7yh ar Fawrth 10fed pryd y byddwn yn cael ein Cinio Blynyddol. Y gwesteion fydd Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Brynrefail. Bwydlen ac arian yn ôl i Dilys Mai erbyn Mawrth 1af. Diolch yn fawr.

**Oedfaon Sul Capel Coch am fis Mawrth**

| | |
|---|---|
| 1: | 10yb: Mr Aeron Jones; 5yh Parchedig Glenys Jones |
| 8: | 10yb: Gweinidog; 5yh Oedfa Moli |
| 15: | 10yb: Mr John H. Hughes; 5yh: Parti Bytholwyrdd |
| 22: | 10.30yb Oedfa Deulu; 5yh: Oedfa Sefydlu y Parchedig John Pritchard yn Weinidog ar ddwy eglwys newydd i'r Ofalaeth yn Capel Carmel, Llanllechid. |
| 29: | 10yb: Mr John H. Hughes; 5yh: Parchedig Cath Williams. |






# Parc Carafannau i Lanberis.

Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ar glirio'r tir yng Nglyn Rhonwy ar gyfer parc carafannau pum seren gwerth miliwn o bunnau. Cwmni Morris Leisure sy'n gyfrifol am y datblygiad; cwmni sydd eisoes yn berchen ar barciau yn Bridgnorth, Amwythig a Llwydlo yn Lloegr ac ym Metws y Coed. Bydd y safle wyth acer yn gartref dros-dro i 54 o garafannau, ac yn ôl ystadegau gan y British Holiday and Home Parks Association disgwylir i'r parc gynhyrchu £200,000 i'r economi leol. Mae'r cwmni yn rhagweld y bydd pedair swydd llawn-amser yn gysylltiedig â'r datblygiad, ac yn gobeithio defnyddio contractwyr a gwasanaethwyr lleol cyn belled ag y bo'n bosibl i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd yr haf eleni.



# Llewod Caernarfon yn cyflwyno arian i Gyfeillion Plas Pengwaith.



Ddiwedd mis Ionawr daeth tri aelod o Lewod Caernarfon i Lanberis i gyflwyno siec am £500 i Gyfeillion Plas Pengwaith.

Yn y llun gwelir Emlyn Bayliss, Trysorydd y Cyfeillion, yn derbyn y siec gan Bill Barry, Llywydd Llewod Caernarfon. Hefyd yn y llun mae Sian Evans, Rheolwraig y Cartref, Vernon Owen, Cadeirydd y Cyfeillion, Howard Griffin a Maldwyn Fretwell, aelodau'r Llewod. Yn eistedd mae dwy o drigolion Plas Pengwaith, Mrs Margaret Pritchard a Mrs Gaynor Edwards.

"Rydym yn hynod ddiochgar i'r Llewod am eu rhodd hael tuag at goffrau'r Cyfeillion," meddai Vernon Owen, y Cadeirydd, "a bydd yn gymorth i ni i ddarparu cyfleusterau ychwanegol i'r trigolion yn ystod y misoedd i ddod."

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Gwasanaethau y Capel** Mawrth 1af: Am 2o'r gloch gwasanaethir gan y Parch Marcus Robinson, ac yn dilyn cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 3 o'r gloch, a Chyfarfod Swyddogion am 3.15.
Mawrth 15ed: Am 10 y bore. Oedfa deuluol o dan arweiniad Susan Williams,Ceunant.
**Profedigaeth** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Nancy Jones, Tremallt, wedi marwolaeth ei gŵr Mr G.O. Jones, ac hefyd â Mr Owie Williams, 19 Rhes Glangwna, oedd yn frawd yng nghyfraith iddo. Anfonwn gydymdeimlad hefyd at ei ferch, Glenda Jamieson a'r teulu yn Waunfawr. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Caeathro ar Chwefror 5ed.
**Llongyfarchiadau** Newyddion da sydd newydd gyrraedd yw bod Mr Llŷr Morris Roberts, gynt o 11 Erw Wen, wedi ei benodi yn Brif Gyfarwyddwr cyfres S4C, Pobl Y Cwm. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.
**Gwellhad** Dymunwn yn dda i Mrs Beryl Roberts, 11 Erw Wen, sydd wedi derbyn triniaeth i'w throed ac wedi treulio peth amser ar faglau. Brysiwch wella.
**Tynfa mis Chwefror** Mair Roberts, Sŵn y Gwynt (77): £40; Eric a Luned Roberts, Graig Lwyd, Stad Glandŵr, (47): £25; Cadwaladr Evans Waunfawr (65): £15; J. Morris, 7 Bryn y Gof (111): £5.

## *Chwaraeon*



## RHEDEG MYNYDD

Mae tymor y rhedeg mynydd wedi ail-ddechrau, a Ras Moelyci wedi denu cant chwedeg a phedwar o redwyr ganol fis Chwefror, y nifer mwyaf erioed i gystadlu; ac oedd, roedd parcio'n broblem! Gan gynnwys rasys y plant, roedd bron i ddau gant o redwyr yn bresennol, a phedwar ohonynt dros 70 oed. Mae'n amlwg mai camp i bob oedran ydi rhedeg mynydd! Mathew Roberts o Lanberis enillodd ar y diwrnod.

Bu Mathew yn fuddugol hefyd yn Ras Hanner Marathon Llwybr Coedwig Coed y Brenin yn gynharach (ac yr oedd dringo ar lwybrau gweddol arw yn rhan o'r ras honno hefyd). Daeth Dyfed Thomas o Lanrug yn chweched yn yr un ras, ac yn gyntaf yn y categori dros 40 oed. Un arall o fechgyn yr ardal – Matt Ward – oedd yn gyfrifol am ei threfnu.

Y ras nesaf ar galendr Rasys Mynydd fydd Moel Tryfan ar fore Sadwrn, Mawrth 7fed am 11.00 y bore o'r Ganolfan, Rhosgadfan, a bydd hon hefyd yn debygol o ddenu llu mawr o redwyr gan nad yw'n rhy anodd.

Y ras lleol nesaf fydd Ras Bwlch Maesgwm yn cael ei threfnu ar ran Pwyllgor Ras yr Wyddfa. Mae'n cael ei chynnal ar fore Sul, 15fed o Fawrth, ac yn agored i rai dros 16 oed ar y diwrnod. Gellir cofrestru ar y diwrnod.

Llongyfarchiadau i Alun Vaughan (Llanberis gynt) ar ddod yn Bencampwr Hanner Marathon Gogledd Cymru yn Wrecsam ganol mis Chwefror. Dyma'i ras gyntaf eleni, ac yr oedd yn rhan o'i baratoadau ar gyfer Marathon Llundain ym mis Ebrill. Yn yr un ras daeth Arwel Lewis (Bethel) yn gyntaf yn yr adran dros 55 oed.

Erbyn i rifyn nesaf yr "Eco" ddod o'r wasg bydd Cyfres Rasys Nos Fawrth ar fin cychwyn, a bydd cystadlu rheolaidd yn dilyn bob wythnos wedyn am weddill y gwanwyn a'r haf. Mae'n hen bryd dechrau ymarfer os am gystadlu!

# RHAID I CHI CHWERTHIN!

Cyfeiriais at y jocs yn rhaglen clwb Llanrug. Dechreuais feddwl am rai o'r sefyllfaoedd digri y bum i yn ymwneud a nhw.

Gêm griced yn erbyn Marchwiail un tymor a minnau yn ceisio 'hookio' y bêl i'r ffin. Chwaraeais rhy fuan a cefais fy nharo ar fy mhen – ni wisgais helmed i fatio erioed.

Disgynais ar fy wiced ac felly yn ôl y rheolau 'allan, taro wiced'. Ni allai chwaraewyr Marchwiail gredu y dyfarniad a roddwyd. Nid oeddwn 'allan' am fy mod yn anymwybodol pan darais fy wiced. Felly doeddwn i ddim 'allan' am fy mod i 'allan'

Dyfarnu ar gae Beach Road ym Mangor. Pan aeth y drydedd bêl i'r môr, roedd yn rhaid atal y chwarae am 10 munud tra roedd un o'r chwaraewyr yn nofio allan i gael y bêl. Hi oedd y bêl olaf oedd ar gael. Chwaraeodd y nofiwr ymlaen yn socian drwyddo!

Dyfarnu Pentraeth v Gwalchmai yng Nghyngrair Môn. Un o Bentraeth yn rhoi goblyn o fagliad i'w wrthwynebwr. Minnau yn estyn y cerdyn melyn, dyma'r troseddwr yn dadlau na ddylsai dderbyn y cerdyn melyn achos ," roedd y bêl gynno fo pan nes i gicio fo." Roeddwn i a'r chwaraewyr o gwmpas yn chwerthin yn braf. Nid oedd gennyf wyneb i roddi cerdyn melyn iddo.

Ydych chi'n cofio hen gae Mountain Rangers yn Bontnewydd gyda'r wifren teliffon yn rhedeg ar draws y cae. Mewn gêm i'r Normal yno un Sadwrn fe darodd y bel y wifren bedair gwaith. Fe gwynodd un o'n chwaraewyr 'o ffwrdd' i'r dyfarnwr. Ateb hwnnw – "ffonia'r league".

Yna'r gêm dyngedfenol ar Eithin Duon rhwng Llanrug a Phrifysgol Bangor yn nhymor 1990/1. Fi yn y canol a'r peli yma yn cael ei taflu ar y cae pob tro yr ai'r bêl swyddogol dros y ffin. Y rheswm, arbed amser, gan fod rhaid i Lanrug ennill o 11 gôl i gipio pencampwriaeth Cynghrair Gwynedd o grafangau Machno. Stopiais y gêm unwaith gan fod 4 pêl ar y cae. Mae'n rhaid fod Llanrug wedi casglu pob pêl oedd ym mhentref Llanrug ar gyfer y noson. Gyda llaw, y sgor terfynnol oedd 17-0 i Lanrug. Fy gêm olaf fel dyfarnwr.

# DARANS YMLAEN! *(parhad or cefn)*





Llanrug reolodd yr hanner cyntaf ac aethant 2-0 ar y blaen drwy gôl gelfydd Dylan Owen wedi 20 munud a Kevin Lloyd wedi 35 munud. Methwyd sawl cyfle ganddynt ac yn raddol brwydrodd Llanberis yn ôl. Yna wedi 40 munud cic rydd Nidian Huws yn cael ei benio i'r rhwyd gan Nathan Williams.

2-1 ar yr hanner â mantais y llethr gan Lanberis yn yr ail hanner. Tro Llanberis oedd methu cyfleuon ond gyda 5 munud yn weddill daeth y gôl allweddol. Unwaith eto cic rydd gelfydd Nidian Huws yn cael ei benio i rwyd Llanrug gan Guto Llywelyn. 2-2 ac amser ychwanegol.

Gyda'r coesau yn blino, daeth y bêl hir fwy-fwy i'r gêm. Methodd Llanrug sawl cyfle, ac yn sicr roedd colli Kevin Lloyd drwy anaf yn golled fawr. Daeth sawl hanner cyfle i Lanberis ond gor-gymlethu yn tagu'r cyfleuon. Dim goliau felly ymlaen i gnoi ewinedd y ciciau o'r smotyn.

Mae'n gwestiwn gen i os welais i giciau mor berffaith mewn gêm mor bwysig. Yr wyth cyntaf yn berffaith i gornel y rhwyd heb roddi unrhyw gyfle i'r gôl-geidwaid.

Yna'r gic dyngedfenol. Y blaenwr Alan Mark Owen yn anelu at gornel dde y rhwyd. Lewis Williams, golwr Llanberis yn neidio fel eog ac arbed. Tawelodd y dorf. Y pwysau i gyd ar Nidian Huws, crewr dwy gôl flaenorol Llanberis. Pwysau? Pa bwysau? Aeth y bêl i gornel y rhwyd. Llanberis trwodd, a'r deiliad allan. Gem i'w chofio, a Llanberis yn ymweld a Phenrhyndeudraeth am le yn y rownd gyn-derfynol.

( Yn anffodus, chwaraeir y gem wedi i'r rhifyn yma fynd i'w wely. Gobeithio y gallwn ddathlu llwyddiant mis nesaf.)

Fel dywedodd Terry Saynor ar 'Ar y Marc' uchafbwynt pob tymor yw buddugoliaeth dros Lanrug. Tybed a welwn ni Terry yn codi'r tlws yn ei dymor olaf wedi 30 tymor fel chwaraewr, rheolwr, pwyllgorddyn a thirmon i'r Darans.

Siom i Lanrug, ond eto'n dangos mor anaml mae unrhyw dim yn amddiffyn tlws.

Er y siom brwydrodd Llanrug yn ôl drwy guro Penrhyndeudraeth i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cookson. Ei gwrthwynebwyr fydd Treffynnon unwaith eto – ym marn llawer y tîm gorau tu allan i'r prif gynghreiriau. Tybed a yw tro Llanrug wedi dod eleni. Edrychwn ymlaen.

Un ol nodyn. Rhaid llongyfarch Gareth Hughes am safon anhygoel rhaglen clwb Llanrug. Trysorfa yn wir yn llawn ystadegau , tablau, gemau – ac ambell i joc liwgar!

Ac i gyd am bunt.Roeddwn wedi anghofio yn llwyr am Dlws yr Eco drefnais i dimau hŷn Waunfawr, Bethel, Llanrug a Llanberis yn nhymor 1997-8. Diolch i Lanrug am nodi eu llwyddiant a dangos mor bwysig yw cystadleuaeth o'r fath. Brenin y Fro. Ond 1997-8. Mêt rwyt ti'n myd yn hen!

# DIFFYG CYDNABYDDIAETH

Mae rhai sefyllfaoedd yn ddi-gyfnewid. Cwpan Criced y Byd, felly gallaf ddisgwyl caniad gan Taro'r Post. Yr un fydd y pwnc trafod, a ddylsai Cymru fod a thîm criced Genedlaethol yn cystadlu ar y lefel yma. Codwyd gwrychyn sawl un eleni gan weld gwledydd 'traddodiadol' criced fel Afghanistan a'r UAE yno. Hefyd Iwerddon a'r Alban sydd a nifer llai o glybiau na Chymru. Chwarae teg i'n cefndryd Celtaidd ym muddugoliaeth Iwerddon dros 'gewri' India'r Gorllewin, a'r Albanwyr yn colli o 3 wiced yn erbyn cryfion Seland Newydd ar eu tomen eu hunain Nid af ymlaen i restru'r pwyntiau â godwyd. Digon yw dweud mai aelodaeth o'r England AND Wales Cricket Board yw'r drwg yn y caws. O ymbellhau o'r briodas yma y ddadl yw y byddai Morgannwg – 'tîm Cymru' – yn colli allan yn arianol. A hwythau mor isel yn yr ail adran a miloedd o'r arian yn llenwi pocedi chwaraewyr tramor anodd gweld sut mae'r ddadl yn dal dŵr.

Onid teg nodi fod Chwaraeon a Hamdden wedi ei ddatganoli bellach. Oni ddylsai'r Cynulliad ddatblygu strategaeth benodol yn pennu cyfnod penodol i sefydlu tîm cenedlaethol. Onid oes gan fachgen neu ferch gricedol ddawnus yng Nghymru hawl i gynhyrchioli eu gwlad yng Nghwpan y Byd fel unrhyw blentyn o Afghanistan neu'r UAE?

# GWIREDDU BREUDDWYD?

Mae tim rygbi Ieuenctid Caernarfon ( dan 19) un gem i ffwrdd o gael chwarae rownd derfynol cystadleuaeth y Plat Genedlaethol ar Stadiwm y Mileniwm. Cafwyd buddugoliaeth wych o 19-14 yn erbyn Pontardulais ar y Morfa. Sgoriwyd tri chais gan Gaernarfon , un gan Guto Pierce( Llanddeiniolen) ac un gan Dafydd Lloyd (Waunfawr). Roedd 8 o garfan y Cofis yn fechgyn o ddalgylch Bro'r Eco. Cafodd Guto Pierce gêm awdurdodol iawn fel maswr, a'i gicio celfydd at y pyst a'r llinell yn cadw'r tim cartref ar y droed flaen. Fe fydd y bechgyn yn wynebu unai Pontypool neu Narberth yn y rownd gyn-derfynol ar faes rygbi Llanidloes.

# Olwynion cyflym…

Er nad oedd hynny wedi ei gadarnhau'n bendant pan aeth yr "Eco" i'r wasg, mae'n ymddangos y bydd cymal o ras feics y 'Tour of Britain' yn ymweld â'r fro eto eleni. Y tebygolrwydd yw mai ym Miwmares y bydd y cymal cyntaf yn cychwyn ym mis Medi, gan anelu dros y Fenai am Lanberis a dringo'r bwlch am Ben y Gwryd ac ymlaen i orffen yn nhref Wrecsam. Ar hyn o bryd does dim sicrwydd pendant o lwybr y ras drwy'r fro. Gallai ddringo drwy Nant y Garth a throsodd am Frynrefail a Phen llyn cyn troi am Lanberis. Opsiwn arall sy'n cael ei gysidro yw teithio drwy'r Felinheli a dringo Gallt y Crug cyn croesi am Bontrug ac yna dilyn y briffordd am Lanberis. Pa bynnag lwybr a gaiff ei ddewis, bydd cyfle ardderchog i drigolion y fro wylio rhai o feicwyr proffesiynol gorau'r byd yn gwibio heibio.

# Cap Arall.


Y mis diwethaf llongyfarchwyd dau o hogiau'r fro ar gael eu dewis i gynrychioli tim colegau Cymru. Cafodd Ifan Emlyn Jones o Lanrug, sy'n chwarae i Glwb Peldroed Dinas Bangor, ei ddewis i Garfan Academi dan 18 oed Cymru i wynebu Gweriniaeth Iwerddon mewn dwy gêm ar Chwefror 23ain a'r 24ain. Cyn y gemau roedd y garfan yn wynebu dau ddiwrnod o ymarfer dwys.

Yn anffodus i gefnogwyr peldroed yr ardal hon, yn ne Cymru y chwaraewyd y ddwy gêm; un yn Hwlffordd a'r llall ym Mhort Talbot. Roedd y gemau'n cael eu chwarae'n rhy hwyr yn y mis i ni fedru cynnwys y canlyniadau yn y rhifyn hwn.

Ond bydd cyfle i ni ei weld gobeithio yn cynhyrchioli tim dan 18 Cymru yn erbyn yr Alban ar faes Nantporth ar nos Iau, Mawrth 5ed gyda'r gic gyntaf am 7pm.

# Chwaraeon

## Medalau i Anya yng Nghaerdydd




Teithiodd athlewraig ifanc Clwb Trac a Maes Menai Anya Williams, 12 oed, o Lanrug i Gaerdydd yn ddiweddar ar gyfer Pencampwriaethau Dan Do Cymru i athletwyr dan 13, dan 17 oed ac Uwch.

Cynhaliwyd y Pencampwriaethau yng Nghanolfan Athletau Dan Do Cenedlaethol, gan ddenu athletwyr gorau pob rhan o Gymru, gan gynnwys sbrintwyr Gemau'r Gymanwlad; Hannah Brier, Mica Moore a Hannah Thomas, yn ogystal â'r taflwyr pwysau Aled Davies ac Adele Nicholl.

Bu bron i ddechrau gwael yn ei ras ragbaratoi 60m gostio Anya ei lle yn y rownd 'A' derfynol. Fodd bynnag, gwelodd ei chryfder yn y pen draw yn dod drwodd i ennill ei ras ragbaratoi mewn amser o 8.79 eiliad. Er gwaethaf cychwyn swrth arall yn y rownd derfynol llwyddodd i adennill ei ffordd yn ôl i hawlio medal efydd haeddiannol mewn amser o 8.74 eiliad ac dim ond colli allan ar fedal arian gan 0.01eiliad!

Gwnaeth Anya ei gwaith yn haws o symud ymlaen at rownd derfynol 'A' y 200m gan ennill ei ras ragbaratoi yn gyfforddus mewn amser o 29.9 eiliad. Mewn rownd derfynol gyflym iawn ac er gwaethaf rhedeg yn sylweddol tu allan i'w amser persono goraul, sicrhaodd Anya ei hail fedal efydd gan gofnodi amser o 29.80 eiliad.

Yn gynharach yn y mis ym Mhencampwriaeth Dan Do Gogledd Cymru yng Nghei Connah, casglodd Anya set lawn o fedalau drwy hawlio aur am daflu'r pwysau, arian am y ras 60m, a medal efydd yn y gamp naid hir.

## DARANS YMLAEN!

Wedi'r gohiriad blaenorol, roedd cryn edrych ymlaen i'r ddarbi gwpanaidd ym mhumed rownd Tlws Pêl-droed Cymru. Ar bnawn oer denwyd torf dda draw i Eithin Duon. Torf cefnogol i'w timau yn creu awyrgylch arbennig. Gyda'r maes yn drwm a'r taclo'n ddigyfaddawd cafwyd gêm agored iawn. Gêm yn llawn cyfleuon, arbedion da gan y ddau gôl-geidwad, a sawl cyfle manteisiol yn cael eu gwrthod. Gêm gwpan go iawn



*Parhad Tudalen 31*